

Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol

Ebrill 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddCymunedau](https://twitter.com/SeneddCymunedau)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol

Ebrill 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Cadeirydd y Pwyllgor:



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Gareth Bennett AC
UKIP Cymru
Canol De Cymru



Huw-Irranca-Davies AC
Llafur Cymru
Ogwr



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Carwyn Jones AC
Llafur Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Leanne Wood AC
Plaid Cymru
Rhondda

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



Siân Gwenllian AC
Plaid Cymru
Arfon



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
1. Y cefndir	9
Ymgysylltu a chasglu tystiolaeth.....	10
2. Atebion ymarferol	12
2.1. Technoleg.....	12
Ein barn ni.....	14
2.2. Amseriad cyfarfodydd cyngor.....	15
Ein barn ni.....	17
2.3. Rhannu swyddi.....	17
Ein barn ni.....	21
2.4. Rôl cyflogwyr	22
Ein barn ni.....	25
3. Gwybodaeth a chymorth.....	27
3.1. Rôl cynrychiolwyr etholedig lleol.....	27
Ein barn ni.....	30
3.2. Hyfforddiant a chefnogaeth i gynghorwyr.....	31
Ein barn ni.....	33
4. Bwlio, Gwahaniaethu ac Aflonyddu.....	35
4.1. Cyfryngau Cymdeithasol.....	36
Ein barn ni.....	38
4.2. Dyfarnwr annibynnol.....	39
Ein barn ni.....	41
4.3. Cod Ymddygiad ar y Cyd	41
Ein barn ni.....	42
5. Telerau a chydnabyddiaeth.....	43
5.1. Cyflog.....	43

Ein barn ni	45
5. 2. Lwfans Gofal.....	45
Ein barn ni	47
5. 3. Cynghorwyr amser llawn ar gyflog amser llawn.....	48
Ein barn ni	49
5. 4. Grantiau ymaddasu.....	49
Ein barn ni	50
5. 5. Cyfyngiadau pedair blynedd a chyfnod mewn swydd	50
Ein barn ni	51

6. Rhaglenni a Chynlluniau..... 53

6. 1. Cynlluniau mentora ac arweinyddiaeth	53
Ein barn ni	58
6. 2. Y system addysg.....	59
Ein barn ni	60
6. 3. Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig.....	61
Ein barn ni	62

7. Y system etholiadol a chwotâu 64

7. 1. Cwotâu	64
Ein barn ni	65
7. 2. Rhestrau byr menywod yn unig.....	66
Ein barn ni	67
7. 3. Gofal bugeiliol ar ôl etholiad	68
7. 4. Casglu Data.....	69
Ein barn ni	69

Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad..... 71

Atodiad B: Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar 72

Rhagair y Cadeirydd

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn darparu ystod o wasanaethau pwysig i'n cymunedau, gan gynnwys addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n gyfrifol am ddeall anghenion trigolion lleol a darparu ar eu cyfer. Po fwyaf cynrychioliadol y mae ein cynghorwyr o'r bobl maent yn eu gwasanaethu, gorau i gyd o ran eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Yn anffodus, mae diffyg cynrychiolaeth sylweddol o ran menywod, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, unigolion ag anableddau, pobl LHDT, pobl ifanc, a phobl sydd ag incwm isel. O'r herwydd, ni chlywir digon am eu profiad, eu safbwyntiau na'u pryderon penodol.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i geisio unioni'r anghydraddoldeb cydnabyddedig a hirsefydlog hwn. Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, grwpiau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a phleidiau gwleidyddol wedi lansio cynlluniau, rhaglenni a chymau gweithredu, ond nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd.

Yn ddiweddarach eleni, disgwylir i'r Bil Llywodraeth Leol gael ei gyflwyno yn y Cynulliad, a bydd hynny'n gyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd ymchwiliad y pwyllgor hwn yn helpu i lywio'r ddeddfwriaeth honno a bydd yn ein cynorthwyo yn ein gwaith craffu. Rydym wedi ceisio deall pwysigrwydd amrywiaeth, yr hyn sy'n ei rhwystro, ac enghreifftiau o ffyrdd ar gyfer dileu'r rhwystrau hynny.

Mae ein hargymhellion yn cynnwys technoleg newydd bosibl, addysg ymwybyddiaeth wleidyddol mewn ysgolion a rhannu swydd; gwell cymorth a hyfforddiant; delio â chyfryngau cymdeithasol; data gwell am ymgeiswyr a chynlluniau a rhaglenni.

John Griffiths AC
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei bil llywodraeth leol arfaethedig, yn cynnwys darpariaethau i lacio'r cyfyngiadau ar bresenoldeb a phleidlais o bell i aelodau yng nghyfarfodydd ffurfiol y cyngor a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi tair ardal awdurdod lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo i hwyluso cyfranogiad drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor o bell..... Tudalen 15

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ehangu'r cyfleoedd rhannu swyddi rhwng dau unigolyn ar gyfer aelodau gweithredol awdurdodau lleol, yn unol â'r hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus yng Nghyngor Abertawe..... Tudalen 22

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb galluogi dau unigolyn i rannu swyddi ar gyfer aelodau anweithredol awdurdodau lleol a chynnwys darpariaethau i alluogi hyn yn y bil llywodraeth leol arfaethedig..... Tudalen 22

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth sefydliadau'r sector cyhoeddus o fanteision cyflogeion sy'n ymgymryd â dyletswyddau dinesig. Pe byddai gwerthusiad o'r fath yn profi bod y gwaith hwn yn llwyddiannus, dylid ystyried sut y gellid ei gyflwyno i fusnesau sector preifat..... Tudalen 26

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol i gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019..... Tudalen 30

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei chanllawiau statudol ar hyfforddiant a datblygiad i nodi bod cymorth i aelodau ar gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn cael ei gynnwys yn y rhaglen sefydlu. Tudalen 34

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol na ddylai fod yn ofynnol i aelodau gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr awdurdod..... Tudalen 34

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, yn mynd i'r afael ar fyrder â diffygion mewn canllawiau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol a'r hyn nad yw'n dderbyniol..... Tudalen 39

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn adolygu cadernid systemau cymorth i aelodau sy'n profi camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio ar-lein ac yn rhoi newidiadau ar waith i gryfhau'r gefnogaeth hon..... Tudalen 39

Argymhelliad 11. Rydym yn condemnio'r diffyg camau gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol wrth ddelio â cham-drin ar-lein ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau deddfwriaeth gref a chadarn i fynd i'r afael â cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol..... Tudalen 39

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cysondeb wrth weithredu codau ymddygiad awdurdodau lleol drwy gyhoeddi canllawiau ar sut i'w gorfodi. Tudalen 42

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o adrodd ar y lwfans gofal sy'n cael ei hawlio gan gynghorwyr, drwy adrodd ar hyn fesul lwfans yn hytrach na nodi pob lwfans a hawliwyd gan aelodau unigol..... Tudalen 47

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am nifer y cynghorwyr presennol sy'n gymwys i hawlio'r lwfans gofal a faint sy'n gwneud hynny. Tudalen 47

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r holl raglenni mentora sy'n cael arian cyhoeddus i asesu eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys gwerth am arian. Tudalen 58

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn gwerthusiad o raglenni sy'n cael arian cyhoeddus, yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhaglen arweinyddiaeth genedlaethol, gan adeiladu ar brofiad Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Chwarae Teg ac eraill ac annog mwy o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n sefyll mewn etholiad..... Tudalen 59

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell, yn y bil llywodraeth leol arfaethedig, bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno lefel ddigonol o addysg wleidyddol ar draws ysgolion Cymru. Dylai pobl ifanc 14 a 15 oed dderbyn yr addysg hon, yn enwedig pe bai cynigion i ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu gweithredu. Dylid cynnwys cynlluniau gwerau clir ar gyfer y rhaglen hon o ymwybyddiaeth wleidyddol i rymuso athrawon i gyflwyno'r gwerau.
..... Tudalen 61

Argymhelliad 18. Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan ERS Cymru y dylid cynnal ffug etholiad cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ar yr un pryd ag etholiadau'r Cynulliad. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir gweithredu hyn..... Tudalen 61

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell, fel mater o egwyddor, bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfa Mynediad i Swydd Etholedig yng Nghymru, i gynorthwyo unigolion anabl i ymgeisio am swyddi etholedig. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o ymestyn cronfa o'r fath i gefnogi grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol..... Tudalen 63

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid ymestyn y Cymal Machlud yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadol) 2002 i 2050 i ganiatáu parhad y rhestrau byr menywod yn unig..... Tudalen 68

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010..... Tudalen 70

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran casglu data, ac mewn perthynas â data eraill am ymgeiswyr y gellid eu casglu o fewn y fframwaith datganoli presennol..... Tudalen 70

1. Y cefndir

1. Nododd adroddiad gan grŵp arbenigwyr ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru - Ar Ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru¹ yn 2014:

“Mae’n bwysig felly bod y bobl sy’n gwneud penderfyniadau ar ein rhan [...] yn deall eu cymunedau lleol ac yn gynrychioliadol ohonynt. Wrth edrych ar y darlun cyfan, yn anffodus, nid felly mae hi yn achos llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd.”

2. Canfu fod proffil cyngorwyr Cymru yn dal i fod yn ddyn gwyn yn bennaf gydag oedran cyfartalog o tua 60:

“Nodwyd mai cynrychiolaeth annigonol menywod mewn bywyd gwleidyddol yn gyffredinol, ac mewn llywodraeth leol yn benodol, yw’r broblem fwyaf sy’n wynebu’r rheini sy’n awyddus i gael siambr cyngor sy’n adlewyrchu ei etholwyr [...] mae’n peri gofid bod ymchwil ar gael sy’n awgrymu bod menywod yn fwy tebygol na dynion o roi’r gorau i fod yn rhan o wleidyddiaeth yn gyfan gwbl os ydynt yn colli eu seddi neu’n penderfynu peidio â sefyll eto. Gallai hyn awgrymu bod sefydliad lle mae dynion fwyaf blaenllaw, gyda’i arddull ymosodol gysylltiedig o ddadlau, yn ddigon i gymhell menywod i beidio â sefyll.”

3. Dim ond rhan o broblem amrywiaeth ehangach yw’r ffaith bod menywod wedi’u tangynrychioli mewn llywodraeth leol. Mae cynrychiolaeth gynyddol ymhlith pobl iau, y rhai o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, unigolion o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a’r gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ac unigolion ag anabledau yn parhau i fod yn her sylweddol.

4. Yn yr adroddiad gan y grŵp arbenigol gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer yr holl randdeiliaid (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a phleidiau gwleidyddol), gan ddarparu cynllun gweithredu ac amseroedd ar gyfer bwrw ymlaen â’r gwaith.

5. Sefydlodd Llywodraeth Cymru, fel rhan o’i hymateb i’r argymhellion, y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a oedd yn cwmpasu’r cyfnod o 2014 i 2017. Y

¹ Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Mawrth 2014

nod oedd cynyddu amrywiaeth unigolion sy'n sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol drwy nifer o fesurau, sef:

- darparu cymorth mentora i ymgeiswyr yn y dyfodol;
- ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i godi proffil gwaith llywodraeth leol a'i haelodau;
- cynllun cyfweiliadau ymadael gyda chynghorwyr sy'n rhoi'r gorau iddi mewn etholiadau er mwyn canfod y rhesymau dros eu penderfyniad.

6. Mae gan nifer o sefydliadau eraill gynlluniau sy'n annog mwy o amrywiaeth o bobl i sefyll ar gyfer etholiadau lleol, gan gynnwys cynlluniau gan Chwarae Teg, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN) a Rhwydwaith Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) ymhlith eraill.

7. Fe wnaethom gytuno i gynnal yr ymchwiliad hwn ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, cyn y bil llywodraeth leol arfaethedig, y disgwyliwn iddo gael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn 2019. Fel rhan o'n gwaith, roeddem am roi sylw i enghreifftiau o arfer da ac atebion arloesol a fyddai'n helpu i gynyddu amrywiaeth cynrychiolwyr etholedig mewn llywodraeth leol. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd:

- deall pwysigrwydd amrywiaeth ymhlith cynghorwyr lleol, gan gynnwys yr effaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd, trafod a gwneud penderfyniadau.
- deall y prif rwystrau i ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.
- trafod meysydd arloesedd ac arfer da a all helpu i gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.
- trafod effaith bosibl y cynigion ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, Cryfhau Llywodraeth Leol i gynyddu amrywiaeth yn siambrau'r Cyngor.

8. Yn ogystal â'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn, bydd y dystiolaeth a glywsom yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein gwaith craffu ar y bil llywodraeth leol arfaethedig.

Ymgysylltu a chasglu tystiolaeth

9. Rhwng 4 Mehefin a 10 Medi 2018 cynhaliwyd ymgyngoriad cyhoeddus. Derbyniwyd 27 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Mae manylion y rhai a ddarparodd dystiolaeth lafar ac a ymatebodd i'n

hymgyngoriad ar gael fel atodiadau i'r adroddiad hwn. Yn ogystal, cynhaliwyd dau arolwg ar-lein, un yn casglu barn y cyhoedd a'r llall yn casglu barn cynghorwyr lleol sydd mewn swydd gyhoeddus ar hyn o bryd. Bu i Aelodau'r Pwyllgor Ymweld hefyd â Chyngor Caerdydd, Cyngor Ceredigion a Chyngor Gwynedd i gasglu tystiolaeth yn uniongyrchol gan gynghorwyr o'r awdurdodau hynny a'r rhai o awdurdodau cyfagos. Clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai (y Gweinidog) ar 9 Ionawr 2019.

10. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

2. Atebion ymarferol

Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r rhai sy'n sefyll mewn etholiadau lleol yw cynnal cydbwysedd rhwng ymgyrchu, eu dyletswyddau cyhoeddus, a'u bywydau preifat.

11. Clywsom yn uniongyrchol gan gynghorwyr ledled Cymru am y pwysau a roddir ar gynrychiolwyr ac ymgeiswyr lleol, wrth gydbwysu cyfrifoldebau eu bywydau preifat, megis swydd neu drefniadau gofalu, gyda'u cyfrifoldebau cyhoeddus. Mae'r bennod hon yn edrych ar rai o'r atebion ymarferol y clywsom y gellid eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru rhywfaint ar y pwysau ar gynghorwyr.

2. 1. Technoleg

12. Awgrymodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad y gallai technoleg, yn enwedig defnyddio gwasanaethau negeseua megis Skype, ddarparu dull ymarferol o gynyddu amrywiaeth ymysg aelodau etholedig. Er bod y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011) yn caniatáu i awdurdodau lleol hwyluso'r defnydd o bresenoldeb o bell, clywsom fod y ddarpariaeth fel y mae yn rhy gyfyngol. Clywsom y gallai defnyddio technoleg roi anogaeth i rai a allai fod yn awyddus i sefyll etholiad, sy'n teimlo nad yw hyn yn cyd-fynd ag ymrwymadau eraill, megis cyfrifoldebau gwaith neu gyfrifoldebau gofalu.

13. Gallai darparu system i gynghorwyr sy'n caniatáu i unigolion fynychu cyfarfodydd ffurfiol y cyngor a phleidleisio o bell helpu unigolion sy'n gweithio'n llawn amser neu'n rhan-amser i ymuno â chyfarfodydd yn ystod y diwrnod gwaith heb adael eu gwaith. Gallai hefyd fod o fudd i gynghorwyr mewn awdurdodau gwledig ymuno â chyfarfodydd na fyddent fel arall wedi gallu eu mynychu.

14. Esboniodd Pennaeth Polisi CLILC y cyfyngiadau presennol o fewn Mesur 2011 ynghylch presenoldeb o bell, a'r manteision posibl yn sgil gwella rôl technoleg i hwyluso presenoldeb yng nghyfarfodydd y cyngor:

“The intention was very positive, in that it allowed members, potentially, to dive into a meeting from home, and potentially use Skype. Unfortunately, Skype wouldn't be allowed through the law as it stands. We've had discussions with the Welsh Government, and they're likely to relax it. So, a number of authorities do use Skype for informal meetings—if members are unable to get in to the council chamber,

they can just use Skype and have a conversation with officers or colleagues, and so on. But, in terms of the formal meetings, the Measure is quite strict in terms of how that can be run. So, hopefully, we should get a more relaxed environment that will allow meetings to be held remotely, particularly in areas like Powys—obviously, large geographical areas, rural areas. So, potentially, you could have different members in different parts of the county, all participating in the same meeting.”²

15. Ategododd Dirprwy Brif Weithredwr Un Llais Cymru y neges hon mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned:

“a number of councils in Wales have said, ‘We’ve got some members who can’t make it sometimes because they’re working away, so can they take part in the meetings via Skype?’ The answer is that that facility does not apply to community and town councils at the moment. My understanding is that it is discretionary in unitary authorities, so that may be something that could be considered in ongoing legislation.”³

16. Pwysleisiodd un cynghorydd a ymatebodd i’n harolwg yr angen i foderneiddio trefniadau cyfarfodydd llywodraeth leol:

“we do need to drag local government into the 21st century and enable ICT to be utilised so councillors can participate via email, text etc rather than have to attend meetings in person. On occasion we drag people from all parts of our area for a meeting which might last 10 mins or less.”⁴

17. Dyma farn a gefnogir gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS Cymru), gyda’i Chyfarwyddwr yn datgan:

“I think that things like Skype, in particular for council meetings could really encourage those who have caring responsibilities and those from a rural background.”⁵

² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 11

³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 29

⁴ [ELGC\(5\)-32-18.papur.5.Ymchwiliad.i.Amrywiaeth.ym.maes.Llywodraeth.Leol.dadansoddiad.o'r.arolwg](#)

⁵ Equality, Local Government and Communities Committee, Record of Proceedings, 21 November 2018, paragraph 170

18. Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad yw technoleg yn ateb i bob problem, ac ar ei phen ei hun, ni fydd hyn o reidrwydd yn annog llawer iawn o ymgeiswyr mwy amrywiol neu aelodau etholedig i gamu ymlaen.⁶

19. Yn ei thystiolaeth, cydnabu'r Gweinidog y manteision posibl yn sgil gwella'r defnydd o dechnoleg:

“One of the things we’re very interested in doing is allowing electronic participation in meetings, for example, so if you are an employer, your employee can go to a room in your building for an hour, and doesn’t have to travel for 45 minutes each side of the meeting and all the rest of it—you know, you can actually participate electronically. There’s no reason why we can’t assist with-- . And especially as we have, geographically, very large councils in Wales, where the travelling is a significant part of what takes up the time. So, I’m very keen to look at how we can help councils have more innovative practices in their meetings, both in time and in how they construct the meeting, to allow the participation of a wider group of people.”⁷

Ein barn ni

20. Rydym yn cydnabod ei bod yn ofynnol i gynghorwyr fynychu llawer o gyfarfodydd y cyngor sy’n golygu ymrwymiad amser sylweddol. Credwn y dylid ystyried yr holl opsiynau i ddefnyddio technoleg er mwyn lleddfu'r pwysau ar gynrychiolwyr etholedig - yn enwedig y rhai â rhwymedigaethau eraill. Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau mewn perthynas â chyfarfodydd ffurfiol o fewn Mesur 2011 a rheolau sefydlog awdurdodau lleol eu hunain. Problem bosibl arall yw dibynadwyedd cysylltedd band eang mewn rhai rhannau o Gymru, sy’n dal yn gymharol wael. Fodd bynnag, credwn na ddylai hyn fod yn rhwystr i ddefnyddio technoleg i hwyluso presenoldeb o bell gan gynghorwyr mewn cyfarfodydd.

21. Byddem yn annog treialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo, fel Skype, mewn tri awdurdod lleol yng Nghymru i alluogi presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y cyngor er mwyn gallu cynnal treialon mewn awdurdod trefol, awdurdod gwledig ac awdurdod yng nghymoedd de Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyfyngiadau presennol ar bresenoldeb o bell yn cael eu

⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 170

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 247

llacio, a bod yr awdurdodau lleol dynodedig yn derbyn cyllid priodol i hwyluso treial o'r fath.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei bil llywodraeth leol arfaethedig, yn cynnwys darpariaethau i lacio'r cyfyngiadau ar bresenoldeb a phleidlais o bell i aelodau yng nghyfarfodydd ffurfiol y cyngor a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi tair ardal awdurdod lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo i hwyluso cyfranogiad drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor o bell.

2. 2. Amseriad cyfarfodydd cyngor

22. Yn ôl ein hymatebion i'r arolwg, elfen arwyddocaol arall sy'n effeithio ar amrywiaeth yw amseriad cyfarfodydd y cyngor. Gall hyn fod yn gyfyngol i rai, yn enwedig y rhai sydd mewn cyflogaeth a / neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Fel y nododd un cynghorydd a ymatebodd i'n harolwg, "mae bron yn amhosibl bod yn gynghorydd a gweithio'n llawn amser".⁸ Gall amserlen busnes y Cyngor hefyd atal pobl ifanc rhag sefyll, yn enwedig os cynhelir cyfarfodydd yn ystod y dydd.

23. Mater i gynghorwyr eu hunain yw sut mae awdurdodau'n trefnu eu busnes, ac mae wedi'i nodi ym Mesur 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ganfod yr opsiwn a ffefrir gan yr aelodau ar gyfer amseriad cyfarfodydd. Mae Canllaw Statudol Llywodraeth Leol Cymru yn nodi'r canlynol:

"Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol i Lywodraeth Cymru ragnodi amseroedd ac amlder cyfarfodydd y cyngor llawn, y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau gan fod y rhain yn faterion i bob awdurdod lleol eu hystyried mewn amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol yn parhau i gynnal eu cyfarfodydd ar yr un pryd ag y maent bob amser wedi gwneud dim ond o inertia. Ni fydd yr hyn a allai fod wedi bod yn draddodiad neu drefniant a oedd yn gweddu i'r genhedlaeth flaenorol o gynghorwyr o reidrwydd yn gwasanaethu buddiannau'r rhai newydd.

⁸ ELGC(5)-32-18 papur 5. Ymchwiliad i Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol – dadansoddiad o arolwg

Dylai pob awdurdod lleol adolygu'r amseroedd y cynhelir cyfarfodydd o leiaf unwaith bob tymor, yn ddelfrydol ar ôl i'r cyngor newydd gael ei ethol. Dylai'r drefn fod yn wir y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau, cyfnodau a lleoliadau sy'n gyfleus i'w aelodau a chyn belled ag y bo'n ymarferol, dylid ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.”⁹

24. Disgwylir i awdurdodau lleol ystyried a yw cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos yn well ac a yw amserau penodol yn achosi anawsterau i gynghorwyr sydd â nodweddion penodol, megis oedran, rhyw, crefydd, cyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth.¹⁰

25. Clywsom nad oes amser delfrydol ar gyfer cyfarfodydd cyngor. Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at gymysgedd o ymatebion gan gynghorwyr ar eu hoffterau.¹¹ Efallai y bydd yn well gan gynghorwyr sy'n gweithio gyfarfodydd yn gynnar gyda'r nos, ond bydd yn well gan y rhai â phlant gyfarfodydd yn ystod y dydd i gyd-fynd â gofal plant. Efallai y bydd yn well gan aelodau hŷn neu wedi ymddeol, gyfarfodydd yn ystod y dydd, yn enwedig mewn siroedd gwledig lle mae'n bosibl y bydd gofyn i gynghorwyr deithio pellteroedd hwy.

26. Yn ystod ein hymweliad â Chyngor Ceredigion, clywsom ei fod yn cynnal y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd yn ystod y dydd, ac yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig y Cyngor caiff ei “adolygu ddwywaith yn ystod pob gweinyddiaeth”.¹² Nododd y cyfranogwyr yn y grŵp trafod yng Ngheredigion fod aelodau “hŷn” yn tueddu i ddewis gweithio yn ystod y dydd, a chan fod proffil y Cyngor yn hŷn yn bennaf, mae hyn yn annhebygol o newid. Serch hynny, gall cyfarfodydd dydd fod yn fuddiol i rai, gan gynnwys pobl â phlant. Nododd rhai bod eu plant yn yr ysgol yn ystod y dydd, a bod cyfarfodydd yn gynnar gyda'r nos yn gwrthdaro â phlant yn dod adref o'r ysgol, yn mynd i glybiau ac amser te.

27. Nododd y Gweinidog fod angen i awdurdodau lleol:

“need to think much more carefully about when they have their meetings, because I think that a large number of principal councils in Wales have their meetings in the middle of the afternoon or at 4

⁹ Llywodraeth Cymru, Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol 2011, Mehefin 2012, paragraffau 1.9 a 1.10

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol 2011, Mehefin 2012, paragraff 1.12

¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 64

¹² Tystiolaeth Ysgrifenedig, DLG03, Cyngor Sir Ceredigion

o'clock, which are not excellent times for anyone with any kind of job or caring responsibility and so it puts people off."¹³

Ein barn ni

28. Rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl trefnu cyfarfodydd cyngor ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Mae'n briodol i gynghorau asesu dewisiadau aelodau yn rheolaidd o ran amserau cyfarfodydd, ac er na fydd amseriadau yn gyfleus i bob aelod etholedig bob tro, dylai fod yn ddyletswydd ar y cyngor i wneud pob ymdrech i alluogi'r cynghorwyr hynny a allai brofi anhawster i'w mynychu.

2. 3. Rhannu swyddi

29. Dywedwyd wrthym fod caniatáu i gynghorwyr rannu swydd gydag aelod arall yn ffordd ymarferol o gynyddu amrywiaeth cynghorwyr sy'n sefyll ar gyfer swyddi. Gallai hyn wneud rôl cynghorydd yn fwy hygyrch ac apelgar i'r rhai na fyddent fel arall yn gallu ymrwymo i'r rôl.

30. Mynegodd Cyfarwyddwr ERS Cymru bryder na ddylai rhannu swydd gael ei ystyried yn opsiwn sydd ar gael i fenywod yn unig:

"It's being talked about at the moment as something for only women, and I think there's a risk that there's almost a perception that could develop that it's something that women can do and men have the full-time jobs, if that makes sense.

I think there's a real risk. It's something that should definitely be described as available to all, rather than just for jobs for the girls."¹⁴

Aelodau gweithredol

31. Roedd cefnogaeth ymhlith tystion i gyflwyno trefniadau rhannu swydd ar gyfer rolau gweithredol, gan gynnwys CLILC a nododd esiampl Cyngor Abertawe lle mae rôl y Cabinet eisoes yn cael ei rhannu rhwng dau aelod gweithredol.¹⁵ Er ei bod yn cefnogi'r egwyddor, dywedodd Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd CLILC, fod anghysondeb bach yn y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â maint cabinet awdurdodau lleol a'r nifer o uwch gyflogau sy'n daladwy - mae

¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 246

¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraffau 174-176

¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 17

Adran 11 (8) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi na all nifer yr aelodau gweithredol fod yn fwy na 10. Roedd yn amau a fyddai mwy o rannu swyddi rhwng aelodau gweithredol yn cael effaith sylweddol ar ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr:

“Job sharing is unlikely to have a significant impact on prospective councillors. Aspiring to be a cabinet member may not be on many people’s minds at the time of election. But it would have a positive impact on councillors who might be prospective cabinet members, because the flexibility may allow them to consider a role, and, actually, it would have a positive impression, generally, on councils, and it would help us towards our drive to be equal opportunity organisations.”¹⁶

32. Roedd Cyfarwyddwr ERS Cymru yn cefnogi mwy o gyfleoedd i rannu swyddi, gan gyfeirio unwaith eto at y trefniadau yng Nghyngor Abertawe fel enghraifft lwyddiannus:

“The fact that job sharing is already happening at a cabinet level in Wales, and is apparently quite successful for the individuals involved I think is really promising. I think there’s a huge scope for job sharing to be used in Welsh politics. There are, I think, things that need to be put in place to ensure that it’s done in a robust way, so a good agreement with the members themselves, making sure that everything’s clear.”¹⁷

33. Nododd y Gweinidog y gallai rhannu swydd hefyd fod yn berthnasol i arweinwyr cynghorau a chadarnhaodd y byddai'r bil llywodraeth leol arfaethedig yn cynnwys darpariaethau sydd wedi'u hanelu at wneud rôl cynghorydd yn fwy deniadol, gan gynnwys creu'r gallu i rannu swydd ar gyfer aelodau gweithredol ac arweinwyr cynghorau er mwyn ehangu rolau aelodau ac arweinwyr gweithredol i bobl nad ydynt yn gallu gweithio'n llawn amser.¹⁸ Aeth ymlaen i ddweud na fyddai rhannu swyddi cabinet yn arwain at gynyddu maint y cabinet:

¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 17

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 173

¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 119

“It would have to be within the frame of ‘It’s not an opportunity to increase the size of your cabinet.’ So, each post is discreet, but it could be filled by people sharing it in terms of hours and so on.”¹⁹

Aelodau anweithredol

34. Fe wnaethom hefyd holi tystion am eu barn ar y posibilrwydd o ymestyn rhannu swyddi i aelodau anweithredol cynghorau. Roedd rhai tystion yn cefnogi’r cysyniad hwn, gyda Chyfarwyddwr ERS Cymru yn nodi:

“there’s a huge scope for job sharing to be used in Welsh politics...If you’re talking about actual council members sharing a role, or Assembly members, if here, I think it needs to be put to the electorate that it is a joint position.”²⁰

35. Roedd rhai o’r heriau ymarferol allweddol a fynegwyd ynghylch rhannu swydd ar gyfer aelodau anweithredol yn cynnwys:

- os yw un o’r ddau aelod yn ymddiswyddo.
- os yw un o’r ddau aelod yn newid plaid.²¹

36. Mewn ymateb i gwestiynau ar ganiatáu i ddau berson sydd eisiau rhannu swydd gynnig eu hunain ar gyfer etholiad, dywedodd Cyfarwyddwr ERS Cymru ei chred y byddai’n arwydd o ddemocratiaeth iach gan ychwanegu:

“I think a lot of voters would actually recognise that as something realistic, that might suit them as well. So, I think almost that we need to lead by example and trial these things, and then maybe we can see more people with caring responsibilities, with different career options, stepping forward into the political arena.”²²

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 225

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 173

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 145

²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 178

37. Roedd Cyfarwyddwr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru), er ei bod yn cydnabod yr angen i ddatrys anawsterau ymarferol, hefyd yn cefnogi mwy o rannu swyddi ar gyfer cynrychiolwyr etholedig:

“As long as people understand it’s one job, as in it’s one role, it’s the same cost to the taxpayer, it’s equally divided—when one person stands down, it’s—. You know, if one person decides to stand down, they both have to stand down; it’s a complete job share. I think it really should be looked at both for the Assembly, although I know legislation would need to change, but I don’t think we should shy away from it, and I think in county council elections it would be a really good way of getting more diverse candidates. It kind of leads on to, ‘Well, how about the pay? Does the pay need to change?’ But I do think job sharing should be a possibility, and it should definitely be something we should be pushing for.”²³

38. Mynegwyd barn gymysg gan gynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol a roddodd dystiolaeth. Wrth nodi y byddai angen goresgyn materion ymarferol, roedd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru²⁴ a Phrif Weithredwr Plaid Cymru²⁵ yn cefnogi’r egwyddor. I’r gwrthwyneb, roedd y Cyfarwyddwr Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol o’r farn bod y materion ymarferol yn rhy niferus.²⁶

39. Wrth nodi bod trefniadau anffurfiol yn bodoli ar gyfer rhannu cyfrifoldebau rhwng cynghorwyr (rhwng aelodau o’r un blaid mewn wardiau aml-aelod), mynegodd CLILC rybudd ynghylch sefydlu rhannu swyddi fel y norm ar gyfer aelodau anweithredol. Pryder arbennig yw natur lafurus rôl y cynghorydd lleol, a’r angen am hyblygrwydd, gyda CLILC yn nodi bod cynghorwyr yn aml yn gweithio mwy na’r tridiau yr wythnos y cânt eu talu amdanynt.

²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 35

²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 145

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, 149

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 147

40. Dywedodd y Cyngorydd Debbie Wilcox, ei bod yn credu y byddai'n achosi mwy o anhawster na rhannu swyddi rhwng aelodau gweithredol y cyfeiriwyd atynt ond cyfaddefodd y gallai fod yn faes i'w ddatblygu.²⁷

41. Mynegodd y Gweinidog y risgiau posibl o ran ymestyn rhannu swyddi i gynghorwyr anweithredol, yn enwedig o ran cynghorwyr sy'n gweithio oriau hwy:

“I very much fear that, if you do that, what you will actually get is two people working full time, so two people working full time for one salary. Because I don't know how you would restrict the call on the councillors' time for both of them.

I fear that what you will end up with is two people, both working full time, for half the pay.”²⁸

42. Er gwaethaf ei rhybudd, nododd y Gweinidog:

“there are a number of things to think about before we go for job share at election. I don't think those barriers exist for doing the job share at the point of appointment inside the council, and we are very keen to push that forward with some dispatch.”²⁹

Ein barn ni

43. Credwn fod potensial i rannu rolau cynghorwyr er mwyn galluogi unigolion na fyddent fel arall yn gallu ymrwymo'n llwyr i'r rôl. Gallai hyn arwain at ystod ehangach o bobl yn ymgymryd â'r rolau hyn. Rydym yn cydnabod y byddai trefniadau o'r fath yn gofyn am bamedrau clir ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r aelodau a chyfathrebu clir gyda'r etholwyr i sicrhau atebolrwydd a thryloywder.

44. Rydym yn canmol y dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Abertawe i ddod yn awdurdod lleol cyntaf Cymru i rannu swydd weithredol rhwng dau aelod. Yn dilyn y cynsail llwyddiannus hwn, hoffem annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i ystyried y dull hwn er mwyn gwella'r amrywiaeth a chynyddu ehangder y profiad a'r sgiliau yn eu cabinet eu hunain.

²⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 19

²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 229

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 237

45. Sylweddolwn y dylai penderfyniadau ar gyfansoddiad cabinet gael eu gwneud gan awdurdodau lleol unigol, ond credwn y dylai pob un ohonynt allu rhannu rhai swyddi gweithredol pe baent yn dymuno gwneud hynny. Rydym felly'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnwys darpariaethau i alluogi hyn yn y bil llywodraeth leol sydd ar ddod. Dylai darpariaethau o'r fath ei gwneud yn glir, pan fydd swydd yn cael ei rhannu, bod y cyflog hefyd yn cael ei rannu rhwng deiliaid y swyddi a sut mae hyn yn cyd-fynd â chyfyngiadau cabinet.

46. Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth gymysg ar gyfer rhannu swydd ar gyfer aelodau anweithredol. Rydym yn ymwybodol bod y cyfyngiadau deddfwriaethol a'r pryderon logistaidd yn fwy na'r rhai ar gyfer rhannu rolau gweithredol, ond credwn nad yw'r rhain yn anorchfygol a'u bod yn haeddu ymchwiliad gan Lywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer ei bil llywodraeth leol arfaethedig.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ehangu'r cyfleoedd rhannu swyddi rhwng dau unigolyn ar gyfer aelodau gweithredol awdurdodau lleol, yn unol â'r hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus yng Nghyngor Abertawe.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb galluogi dau unigolyn i rannu swyddi ar gyfer aelodau anweithredol awdurdodau lleol a chynnwys darpariaethau i alluogi hyn yn y bil llywodraeth leol arfaethedig.

2. 4. Rôl cyflogwyr

47. Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr hawl i gael amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus. Mae **Adran 50** yn datgan bod yn rhaid i gyflogwr ganiatáu i gyflogai sy'n aelod o awdurdod lleol gael amser i ffwrdd yn ystod oriau gwaith y cyflogai at ddibenion cyflawni dyletswyddau'r swydd.

48. Nid oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu bod cyflogwyr yn rhwystro penodol i bobl sefyll etholiad. Cyfeiriodd Pennaeth Polisi CLILC at ystadegau o arolwg Llywodraeth Cymru o gynghorwyr a nododd fod tua 35% o gynghorwyr sir yng Nghymru mewn cyflogaeth amser llawn, 14% mewn cyflogaeth ran-amser ac 16% yn hunangyflogedig. Cyfeiriodd hefyd at dystiolaeth a gasglwyd trwy arolwg CLILC o gynghorwyr a safodd i lawr yn yr etholiad diwethaf, gan nodi:

“very few people mentioned that their employers were a hindrance to their role as a councillor...the feedback we have is that employers are supportive.”³⁰

49. Er gwaethaf hyn, dywedodd hefyd y gall cyflogwyr wrthod ceisiadau am amser o’r gwaith i wneud gweithgareddau fel bod yn gynghorydd os yw’n mynd yn feichus, ac:

“A significant number of councillors are having to juggle their employed role and their council role, and sometimes they have to take time off work and sometimes they have to work very flexibly.”³¹

50. Nododd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru fod y diwrnodau lle mae cyflogwyr yn gweld darparu dyletswydd gyhoeddus fel dyletswydd ddinesig wedi mynd, a bod “swydd fawr” i’w gwneud i annog cyflogwyr i roi cyfle i’w gweithwyr sefyll:

“We’re missing so many opportunities for people to have so many skills that we could use, not just in local government, but in all sorts of different spheres.”³²

51. Dywedodd Pennaeth Polisi CLILC wrthym fod cefnogi ac annog busnesau i ddeall y manteision sy’n gysylltiedig â’u gweithwyr yn dod yn gynghorwyr yn bwysig, gan ychwanegu:

“Where their members of staff become councillors, it’s incredibly good in terms of personal development, professional development potentially, and there’s a clear demonstration of businesses’ corporate social responsibility and commitment to the community.”³³

52. Nododd Prif Weithredwr Chwarae Teg, cyn-gynghorydd ei hun, hefyd ddiffyg dealltwriaeth o rôl cynghorydd, a’r manteision i’r cyflogwr a’r gweithiwr:

³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 33

³¹ Ibid

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraffau 152 a 153

³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 34

“My employer saw it as a positive that I was able to gain that kind of breadth of experience across a range of public services...having a supportive employer certainly removes a barrier.”³⁴

53. Awgrymodd y Comisiynydd yr Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol ei fod yn fater y gallai fforymau cyflogwyr ei drafod a rhannu arfer da:

“There are some employers who are very good and really see the benefit of having someone giving public service who is an employee. Obviously, it’s easier for the larger employers than the small employers, but there is a benefit. I think what we need to do is, in employers’ forums, talk about this issue. And employers who do it very well could actually educate those who are less good at it and show them the benefits that can be received.”³⁵

54. Esboniodd Prif Weithredwr Chwarae Teg sut y gall amseru cyfarfodydd beri anawsterau penodol i aelodau sydd hefyd angen cydbwysu eu cyfrifoldebau gyda’r cyngor gyda’u cyflogaeth allanol hefyd:

“all of this goes hand-in-hand with issues around the times at which council meetings are held, how we try to get the balance between supporting people who may have caring responsibilities versus those who work.”³⁶

55. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rai o’r anawsterau a wynebwr gan aelodau sydd â swyddi eraill hefyd:

“with those councillors that aren’t employed in the public sector, the reasonable time off that they’re allowed is to attend the full council meetings. So, then, if you imagine all the other committee meetings that they have to attend, it’s really difficult. They have to prioritise, together with their training programmes, and then if their attendance isn’t 100 per cent, they do get criticised by the public for not being

³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 47

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 157

³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 47

there 100 per cent of the time. So, it is a really, really difficult balancing act for the councillors.”³⁷

56. Dywedodd Pennaeth Polisi CLILC wrthym sut y bydd y sefydliad yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus fel rhan o'u hymgyrch ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf yn 2022:

“part of our campaign will be about engaging with public sector employees in particular to just encourage and promote the fact that their staff should consider standing for election, both as personal professional development but also as a contribution to their communities as well.”³⁸

Ein barn ni

57. Rydym yn cydnabod yr anawsterau i gyflogwyr wrth ryddhau staff yn rheolaidd ar gyfer dyletswyddau'r cyngor tra'n cynnal anghenion busnes eu sefydliad eu hunain. Bydd hyn yn arbennig o heriol i fusnesau bach sy'n dibynnu ar weithlu llai. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod aelodau etholedig yn cael yr amser angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol; credwn y gallai meithrin gwell dealltwriaeth ymysg cyflogwyr am rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr gynorthwyo gyda hyn.

58. Rydym yn croesawu ymrwymiad CLILC i weithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision cyflogeion sy'n ymgymryd â dyletswyddau dinesig fel bod yn gynrychiolydd etholedig lleol. Dylid gwerthuso'r gwaith hwn, ac os bydd yn llwyddiannus, dylid ystyried sut y gellid ei gyflwyno i fusnesau'r sector preifat.

59. Fel yr ydym wedi trafod o'r blaen, gallai mynychu cyfarfodydd o bell gael effaith sylweddol ar allu aelodau i gymryd rhan mewn trafodion a chael llai o effaith ar agweddau eraill ar eu bywydau. Gallai hyn ddod â manteision penodol i aelodau sydd angen cydbwysu gwaith gyda'u chyfrifoldebau fel cynghorydd; gallai caniatáu i gyflogai gael cyfnod byr o amser i gysylltu â chyfarfod o bell, o leoliad yn eu gweithle o bosibl, fod o fudd i'r cyflogwr a'r cyflogai. Byddai gweithredu ein hargymhelliad yn galluogi trefniant o'r fath.

³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 47

³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 46

60. Ni wnaethom dderbyn tystiolaeth ddigonol i werthuso graddau ymlyniad cyflogwyr i adran 50 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, ac rydym yn cydnabod bod angen cynnal ymchwiliad i benderfynu ar arfer gorau i ganiatáu amser i ffwrdd i gyflogeion yn ystod oriau gwaith i ymgymryd â dyletswyddau dinesig. Credwn fod gwerth cynnal ymchwiliad o'r fath er mwyn cael darlun clir o arfer gorau i gyflogwyr a chyflogeion.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth sefydliadau'r sector cyhoeddus o fanteision cyflogeion sy'n ymgymryd â dyletswyddau dinesig. Pe byddai gwerthusiad o'r fath yn profi bod y gwaith hwn yn llwyddiannus, dylid ystyried sut y gellid ei gyflwyno i fusnesau sector preifat.

3. Gwybodaeth a chymorth

Clywsom fod angen mwy o wybodaeth am rôl aelodau awdurdodau lleol, o ran codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer y swydd.

3.1. Rôl cynrychiolwyr etholedig lleol

61. Clywsom fod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith y cyhoedd o rôl swyddogion etholedig, ac y gallai gwell dealltwriaeth o'r rôl a'r chyfrifoldebau annog rhai unigolion i sefyll. Nododd 29 y cant o'r cyhoedd a ymatebodd i'n harolwg y byddai gwell dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau cynghorydd yn eu helpu.

62. Cytunodd y cynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r rôl er mwyn annog mwy o amrywiaeth ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau cynghorau lleol, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

“gwell addysg o'r hyn y mae'r rôl yn ei olygu mewn gwirionedd”

“Addysgu pobl ynghylch beth mae cynghorydd da yn ei wneud a'r effaith y gallai ei chael ar y gymuned leol”

“Rwy'n credu y dylai gwleidyddiaeth ac ati gael ei haddysgu mewn ysgolion a cholegau er mwyn rhoi cipolwg i bobl ifanc ar wleidyddiaeth ac efallai y bydd yn annog pobl iau i sefyll i fod yn Gynghorwyr.”³⁹

63. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrthym fod gwybodaeth ar gael, ond bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd iddi a'i defnyddio. Dywedodd wrthym fod gan gynghorau wybodaeth yn gyffredinol ar eu gwefan, fel tudalen “Byddwch yn gynghorydd”, a all gynnwys fideos gyda gwybodaeth am rôl cynghorydd. Mae CLLC hefyd yn cynhyrchu canllawiau i ymgeiswyr, sy'n cynnwys crynodeb o rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr.⁴⁰

³⁹ ELGC(5)-32-18 papur 5. Ymchwiliad i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol – dadansoddiad o'r arolwg

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 67

64. Dywedodd y Cyngorydd Debbie Wilcox wrthym ei bod yn credu bod addysgu pobl ifanc yn allweddol i godi ymwybyddiaeth:

“I would strongly advocate a clear pathway for learning in our schools and particularly as [], there’s a move towards voting at 16. Our young people really do want to know about politics and political structures, and I think it could encompass that. Education is a key here and I think young people would help us, certainly, to spread the word.”⁴¹

65. Cytunodd Cyfarwyddwr ERS Cymru fod addysg wleidyddol yn allweddol i godi ymwybyddiaeth, ond er ei bod yn haws addysgu pobl ifanc mewn ysgolion, byddai gwneud hynny ar gyfer y boblogaeth ehangach yn fwy heriol.⁴² Nid oedd yn credu bod angen deddfu ar gyfer menter o’r fath, ond:

“it would need a strong policy direction and to be rolled out effectively like a very good campaign. I don’t know if it’s necessarily a law; it’s a campaign that needs to fundamentally underline that.”⁴³

66. Un awgrym oedd cael ymgyrch wedi’i chydlynu’n genedlaethol i esbonio’r hyn y mae cynghorwyr lleol yn ei wneud, tra bod eraill yn awgrymu dosbarthu mwy o wybodaeth trwy sefydliadau y mae pobl yn gweithio iddynt. Cynigiodd Prif Swyddog Cyngor Hil Cymru:

“I would suggest that perhaps we could propose a two-pronged approach, where more information is produced and distributed through local community centres, through established grass-roots, ethnic minority groups across Wales, but also through organisations, employers, like some of those in—you know, local authorities themselves, in policing sectors, in private sectors. Let there be information sharing and an encouragement at all sorts of levels—the local education authority, you know, all the public, private and third sector strategic boards, where the message could be got out that all

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 69

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 203

⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 207

staff should be briefed about the opportunity to be supported, as organisations that are forward thinking.”⁴⁴

67. Awgrymodd Comisiynydd Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol fod gan y pleidiau gwleidyddol rôl i’w chwarae wrth godi ymwybyddiaeth o’r rôl:

“I don’t think there is an understanding of roles and responsibilities. I think the parties, as has been said, have a real role here and I think that is why I say it’s important to increase the pool of people interested and then invite them to some sort of seminar where they can come and discuss much more about those sorts of roles and responsibilities.”⁴⁵

68. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru wrthym fod y blaid wedi cymryd camau i annog y cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn gwleidyddiaeth:

“we’ve appointed a community organiser that will look to encourage ordinary members of the public to get involved, not just with the Labour Party, but in politics in general.”⁴⁶

69. Mae’r Gweinidog hefyd yn credu fod angen mwy o wybodaeth am y rôl fel bod gan bobl, wrth ystyried neu gael eu hannog i sefyll mewn etholiad, well dealltwriaeth o’r hyn y byddent yn ymrwymo i’w wneud:

“running a real campaign about what your local councillor can actually do for you in your community and what their role on the council is, what the decisions they can make are, what a dramatic impact they have on day-to-day life in your community.”⁴⁷

70. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal ymgyrch o’r fath. Nododd y byddai’n trafod gyda CLILC ynglŷn â chynnal ymgyrch cyn gynted â phosibl, nid dim ond yn ystod etholiad, oherwydd bod pobl yn ystyried yn awr a ydynt yn mynd i sefyll mewn etholiad.⁴⁸

⁴⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 54

⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 165

⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 178

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 121

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 123

Ein barn ni

71. Mae hygyrchedd gwybodaeth am rôl cynghorwyr yn amlwg yn faes i'w wella. Heb wybodaeth syml, glir a hygyrch, ni fydd darpar ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, o reidrwydd yn deall beth mae'r rôl yn ei olygu. Ni fyddant ychwaith o reidrwydd yn cydnabod ei bod yn rôl y gallent hwy ei gwneud eu hunain.

72. Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth ar-lein, ond, oni bai bod unigolion yn edrych yn benodol am y wybodaeth hon, mae'n annhebygol y bydd y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn ei gweld. Nid oes angen i'r broses o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r hyn mae swyddogion etholedig yn ei wneud fod yn ddrud a gellir gwneud llawer mwy ar-lein. Clywsom fod clipiau fideo byr yn cael eu defnyddio i esbonio'r rôl, a gallai'r rhain ddarparu llawer iawn o wybodaeth mewn amser byr mewn ffordd hygyrch. Y cyfryngau cymdeithasol yw un o'r prif ffynonellau ar gyfer dosbarthu a chasglu gwybodaeth, yn enwedig i bobl ifanc. Dylid gwneud llawer mwy o ddefnydd o hyn i godi ymwybyddiaeth a phroffil rôl cynghorwyr.

73. Rydym yn ymwybodol o'r rhaglen "Wythnos Democratiaeth Leol" sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i annog amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr yn yr ardal, sy'n cynnwys sesiwn i ddarparu ymgeiswyr lle estynnir gwahoddiad i'r cyhoedd ganfod mwy am y broses o ddod yn gynghorydd a'u cyfrifoldebau. Rydym yn cydnabod, er bod yr adborth yn datgelu bod y baich gwaith a gofynion y rôl yn eu hatal rhag sefyll, cafodd nifer o'r mynychwyr eu hethol yn gynghorwyr wedi hynny.

74. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i weithio gyda CLILC ar ymgyrch gadarnhaol i godi ymwybyddiaeth o rôl y cynghorydd ac rydym yn annog y dylai hyn ddechrau nawr er mwyn denu ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2022. Credwn fod gan CLILC rôl hefyd o ran rhannu enghreifftiau o arfer dda rhwng awdurdodau lleol pan ddefnyddir ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol i gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019.

3. 2. Hyfforddiant a chefnogaeth i gynghorwyr

75. Mae Mesur 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau. Mae'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r Mesur hwnnw yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w haelodau. Fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn diffinio beth yw hyfforddiant a datblygiad rhesymol. Er bod hyfforddiant a datblygiad yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol unigol, clywsom fod CLILC yn gweithio gyda'r awdurdodau i ddatblygu disgrifiadau rôl, fframwaith cymhwysedd, cwricwlwm sefydlu a rhaglen hyfforddi a datblygu barhaus.⁴⁹

76. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrthym fod y system ar gyfer hyfforddi a datblygu yn gadarn, gyda rhaglen sefydlu sy'n para am y 12 mis cyntaf ar ôl etholiad. Mae CLILC hefyd yn darparu hyfforddiant, fel sgiliau craffu a chadeirio.⁵⁰ Aeth yn ei blaen i ddweud:

“despite the training and support offered, some councillors do struggle to commit the time to the training programme when it's on top of everything else that they have to do, and some are just not interested in the training.”⁵¹

77. Dywedodd Cadeirydd Plaid Leol Caerdydd a'r Fro Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wrthym fod maint y gwaith ar ôl cael ei hethol wedi bod yn “sioc i'r system,” gan ychwanegu:

“I was going through piles of paperwork that I wasn't thinking I'd be having to do. It was a learning curve for me, and that kind of commitment, the timings as well—those things are not laid out anywhere, really, and they probably need to be.”⁵²

78. Dywedodd y Gweinidog wrthym y gall y rôl fod yn feichus a llethol, a allai arwain at effaith negyddol ar yr aelod a'u teulu. Nododd mai pwynt y Gwasanaethau Democratiaidd oedd cefnogi aelodau meinciau cefn, gyda

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 96

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2019, paragraffau 96 a 97

⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 97

⁵² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 163

rhaglenni hyfforddi a chymorth cynhwysfawr, ond cwestiynodd a oedd y gefnogaeth wedi bod mor effeithiol ag y gallai fod ym mhob cyngor. Nododd fod y mesur llywodraeth leol arfaethedig yn bwriadu cynnwys mesurau ychwanegol yn ymwneud â hyfforddiant a chefnogaeth.⁵³

Ffiniau i gynghorwyr

79. Fel rhan o'r drafodaeth ehangach ynglŷn â hyfforddiant a chymorth, buom hefyd yn archwilio'r mater o gefnogi aelodau â ffiniau i ddiogelu aelodau rhag gorweithio.

80. Soniodd Pennaeth Polisi CLILC am anhawster gosod ffiniau o amgylch rôl cynghorydd, o ystyried natur y rôl o ran bod yn rhan o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu, a disgwyliadau cynyddol etholwyr o ran cael ymateb ar unwaith:

“people do stop you every time of the day and people do expect you to answer your phone at midnight if they've got an issue in terms of housing. Christmas Day is not a holiday for most councillors.[] That goes with the territory, unfortunately.[] People put something on social media and they expect an instantaneous response, whatever time of the day, unfortunately. So, it's a fast-moving world now, and, unfortunately, public expectations are extremely challenging for members.”⁵⁴

81. Siaradodd y Cynghorydd Debbie Wilcox am ei phrofiad ei hun fel cynghorydd, gan nodi:

“All councillors will have mobile phones and laptops and access, but that's—. It doesn't stop the general public expecting. If my phone rings at 10:30 on a Sunday night, which it does, I don't answer it.”⁵⁵

82. Hefyd, cododd y Cynghorydd Wilcox yr agwedd o gyhoeddi manylion cyfeiriadau cynghorwyr ac eglurodd sut yr oedd aelodau yn ei hawdurdod lleol hi,

⁵³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 136

⁵⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 100

⁵⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 102

Cyngor Dinas Casnewydd, wedi cael dewis peidio â chyhoeddi eu cyfeiriadau ar wefan yr awdurdod a'u bod yn cysylltu â hwy drwy'r cyngor yn lle hynny.⁵⁶

83. Nododd y Gweinidog, gan ymateb i gwestiynau ar y materion hyn:

“We ought to encourage people to stand as councillors who perhaps don't want their homes to turn into [an] outpost of the council, because actually it's a job as well, so you ought to be able to direct your post and your constituents and so on to the council.”⁵⁷

“So, we need to put systems in place that allow councillors who want to have a more working relationship with their job rather than a vocational one, if you like, to be able to do that and still to be perceived by the community as the very good councillors that they are. It shouldn't be a requirement that you're on call 24/7 in order to be seen as a good councillor.”⁵⁸

Ein barn ni

84. Er ein bod wedi clywed bod awdurdodau lleol yn darparu pecyn o hyfforddiant i'w haelodau, nid yw'n glir o'r dystiolaeth a gafwyd a yw'r rhaglenni hyfforddi yn effeithiol, yn enwedig wrth ymdrin â'r pwysau cynyddol a roddir ar gynghorwyr. Rydym yn deall bod cynghorwyr yn wynebu anawsterau wrth gydbwysu'r angen i fod yn weithgar yn eu cymunedau a chynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a chredwn y dylai cefnogi aelodau, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r sefyllfa, wrth ddelio â'r llwyth gwaith trwm a sut i ymateb i'r gofynion ar eu hamser fod yn rhan annatod o'r hyfforddiant a ddarperir.

85. Roeddem yn arbennig o bryderus ynghylch y disgwyliad y bydd cyfeiriadau cartref cynghorwyr yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefannau awdurdodau lleol, nad yw'n wir am gynrychiolwyr etholedig eraill fel ACau ac ASau. Er ein bod yn deall y gall rhai cynghorwyr fod yn fodlon i'w cyfeiriadau cartref fod ar gael i'r cyhoedd a'u bod yn ystyried hyn fel agwedd annatod o gael eu hymgorffori yn eu cymunedau ac y dylai llawer o etholwyr sydd eisoes yn ymwybodol o ble mae eu

⁵⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 104

⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 129

⁵⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 133

cynghorwyr lleol yn byw, ni ddylai fod yn ofyniad ar y rhai a allai fod yn amharod i wneud hynny.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei chanllawiau statudol ar hyfforddiant a datblygiad i nodi bod cymorth i aelodau ar gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn cael ei gynnwys yn y rhaglen sefydlu.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol na ddylai fod yn ofynnol i aelodau gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr awdurdod.

4. Bwlio, Gwahaniaethu ac Aflonyddu

Clywsom fod cynrychiolwyr etholedig wedi wynebu bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu fel rhan o'u bywydau cyhoeddus, a bod ofni profiad o'r fath yn rhwystr i lawer o ddarpar ymgeiswyr.

86. O'r cynghorwyr a gymerodd ran yn ein harolwg, roedd chwarter wedi wynebu camdriniaeth, bwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu yn eu cymuned leol; un o bob pump (19.2 y cant) o fewn y cyngor; un o bob deg (11.8 y cant) o fewn eu plaid neu grŵp gwleidyddol. Dim ond traean o'r cynghorwyr nad oeddent wedi dioddef ymddygiad o'r fath yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

87. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr WEN Cymru faint o'r sefyllfa:

“the general perception that if you go into public life, you're going to get a hell of a lot of grief is also a really big barrier.”⁵⁹

88. Siaradodd Prif Weithredwr Chwarae Teg am ei phrofiad fel cyn-gynghorydd:

“Certainly, when I had a brief and unsuccessful spell chairing Cardiff council, we tried to improve the conduct within the council chamber, so that you create a culture where that is not tolerated, and if it's not tolerated in the council chamber, it's not tolerated in the platforms and the discussions around that, and that you create a more supportive network of councillors cross party to say, 'Actually, we want a higher standard of debate.' I think that takes a lot of discipline and commitment from existing councillors and the officers supporting that, because the tendency can be, as you've talked about here, just to default to a very confrontational-style debate that's very aggressive, very macho, where my experience was that women of all political parties would, sort of, eye-roll across the chamber as the next irate, older male councillor stood up to say his piece. So, I think that translates into social media as well. We have a responsibility to support each other and to

⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 5

call it out, and I think it's perfectly acceptable for the ombudsman to have a role in that.”⁶⁰

4. 1. Cyfryngau Cymdeithasol

89. Clywsom dystiolaeth o'r effaith gadarnhaol a negyddol y gall y cyfryngau cymdeithasol ei chael ar drafodaethau gwleidyddol. Er ei fod wedi rhoi llwyfan i aelodau etholedig ymgysylltu a chyfathrebu â'u hetholwyr mewn ffordd nad oedd yn bosibl yn flaenorol, mae hefyd yn darparu llwyfan i rai unigolion gam-drin ac aflonyddu.

90. Esboniodd y Cynghorydd Debbie Wilcox yr anfanteision o ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol:

“There's probably not a politician in this room that hasn't seen that downside, and if you're a woman politician, then there are significant extra downsides to that. Research is widely showing now that it is becoming an increasingly crowded and antagonistic space.”⁶¹

91. Nododd cynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg fod cam-drin ar-lein yn broblem wrth sefyll am etholiad, yn ystod eu cyfnod yn y swydd ac fel rheswm dros roi'r gorau iddi. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan gynghorwyr yn cynnwys:

“Mae'r cyfryngau cymdeithasol a'r hinsawdd newydd o gam-drin a chasineb wedi gwneud pethau'n wahanol ac yn fwy personol.

Daeth y cyfryngau cymdeithasol yn rhwystr ac yn her am eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ymosodiadau personol a thynnu sylw pleidleiswyr i ffwrdd o brif faterion fy maniffesto.”⁶²

92. Dywedodd CLILC wrthym eu bod wedi cynhyrchu canllawiau sylfaenol i gynghorwyr ar ddefnyddio ac ymdrin â chamdriniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig o ran blocio, tawelu a chyfeirio materion at yr heddlu. Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd Wilcox yn credu bod angen i'r gyfraith ddal i fyny:

⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 89

⁶¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 5

⁶² ELGC(5)-32-18 papur 5. Ymchwiliad i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol – dadansoddiad o'r arolwg

“the WLGA have provided guides for councillors that can be used for candidates as well, we’ve got a training and briefing session. The guides have been very well received. So, we’ve got a basic guide about social media, covering the benefits, the pitfalls and the law, but it’s this online abuse, and we’ve produced some supplementary guidance on that. [] I think it’s all our problem, and I genuinely think the law has to catch up with what’s happening out there in the social media realm. I think the law’s lagging behind.”⁶³

93. Cytunodd y tystion bod angen rhoi mwy o bwysau ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i weithredu ar gam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd Pennaeth Polisi CLILC wrthym:

“it’s putting pressure on the social media companies, because both of them, the biggest ones, Twitter, Facebook, they almost say in the terms and conditions that criticism and abuse of elected politicians and people in public life is almost fair game because it’s part of debate.

there have been some very public examples of where that challenge of politicians has clearly overstepped the mark, clearly offensive, clearly abusive, and, yet, either Twitter or Facebook just will not deal with it, and I think there’s a responsibility on those bodies and others to deal with this.”⁶⁴

94. Pwysleisiodd Prif Weithredwr Cyngor Hil Cymru effaith niweidiol cam-drin ar-lein ar ymgeiswyr ac aelodau etholedig. Awgrymodd hefyd fod angen ymagwedd o ddim goddefgarwch tuag at fwlio, cam-drin ac aflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol:

“On social media, it’s been horrendous, some of what they publish against people for taking a public office. []I mean, this could really ruin a whole person’s life, and I think maybe a cross-party approach on zero tolerance to bullying on social media, engaging with Facebook, Twitter and Instagram proprietors to agree a form of code of conduct, a cut-off point, where people’s lives are respected, because it is discouraging to

⁶³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 110

⁶⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraffau 115-117

more people because when they see what's happening to those who have been elected it is very discouraging.”⁶⁵

95. Cytunodd Swyddog Menywod UCM Cymru fod angen dull dim goddefgarwch tuag at gam-drin ar-lein, ynghyd â gweithdrefnau i ddelio ag ymddygiad camdriniol:

“there needs to be a stronger zero tolerance culture across the board on social media abuse, online abuse. [] I look at Diane Abbott and I look at the abuse that she's received on and offline, and I think, 'Oh my gosh, as a black woman I would never want to put myself in that position'. So, I think it starts with making sure that young people and everyone understand that, if they want to stand for election and if they receive this type of abuse, there are going to be proper procedures in place that, if someone's abusing them online, they have a clear way that they can report it; once it's been reported, there are clear guidelines and policies in place so that those people can be prosecuted. And I think having that zero tolerance culture be more prominent will help to end that type of abuse.”⁶⁶

96. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hapus i edrych a oes angen arbenigedd allanol ar awdurdodau lleol i gefnogi aelodau gyda hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol:

“The local authority needs to be that team for the councillor, doesn't it, and have that conversation about how to deal with it, what they'd like to have happen, what the best way for each individual person to deal with this is...so, we need to help the local authority to have that expertise inside it.”⁶⁷

Ein barn ni

97. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod cam-drin ac aflonyddu ar-lein ac effaith hyn ar unigolion a'u teuluoedd yn bryder gwirioneddol i gynrychiolwyr etholedig ac yn rhwystr i ddarpar ymgeiswyr. Mae'n destun pryder arbennig bod y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn fwy tebygol o fod yn darged i gam-drin ac

⁶⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 91

⁶⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 330

⁶⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 211

aflonyddu ar-lein. Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol, ac mae angen gweithredu i atal ymddygiad camdriniol ar-lein.

98. Rydym yn cydnabod bod CLILC wedi cymryd camau i gynorthwyo aelodau drwy gyhoeddi canllawiau ar ddelio â cham-drin ar-lein. Fodd bynnag, ymddengys nad oes dull cyson a chynhwysfawr, na systemau cefnogi digonol i aelodau ddelio â cham-drin ac aflonyddu ar-lein. Credwn felly fod angen dybryd am ganllawiau mwy cynhwysfawr ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol i ymgeiswyr ac aelodau etholedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

99. Rydym yn cydnabod bod aelodau etholedig hefyd yn destun aflonyddu ar-lein gan aelodau'r cyhoedd. Er nad yw pleidiau gwleidyddol ac awdurdodau lleol mewn sefyllfa i atal hyn, dylent sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i aelodau sy'n profi'r ymddygiad hwn.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, yn mynd i'r afael ar fyrder â diffygion mewn canllawiau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol a'r hyn nad yw'n dderbyniol.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn adolygu cadernid systemau cymorth i aelodau sy'n profi camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio ar-lein ac yn rhoi newidiadau ar waith i gryfhau'r gefnogaeth hon.

Argymhelliad 11. Rydym yn condemnio'r diffyg camau gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol wrth ddelio â cham-drin ar-lein ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau deddfwriaeth gref a chadarn i fynd i'r afael â cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol.

4. 2. Dyfarnwr annibynnol

100. Fe wnaethom drafod gyda'r tystion y cynnig i sefydlu dyfarnwr annibynnol i ddelio ag achosion o fwlio neu aflonyddu rhwng cydweithwyr gwleidyddol yn yr un blaid o fewn llywodraeth leol.

101. Roedd Cyfarwyddwr ERS Cymru yn cefnogi sefydlu rôl dyfarnwr annibynnol gan nad oedd pleidiau gwleidyddol wedi delio'n ddigonol ag achosion o gam-drin, gwahaniaethu neu aflonyddu rhwng cyd-aelodau:

“the thing we heard a lot about was abuse from other politicians. I think parties have seriously lacked in effectively handling that. One of the

things that we would urge is an independent process around that. So, parties, I think, when having issues, should be essentially removed from that process and an independent adjudicator should come in and say how that should be dealt with. I think that would help a lot of people feel that there was an element of accountability there yno.”⁶⁸

102. Roedd Cyfarwyddwr WEN Cymru hefyd yn cefnogi sefydlu dyfarnwr annibynnol i gynyddu hyder yn y broses:

“The other important thing to say about tackling this is we need an independent process. I think it’s difficult for political parties themselves, for members of that political party, to adjudicate over cases, and I think we need independent adjudicators to give confidence to the public, because I think if young women are looking at the system today and looking at what’s going on, they are really put off.”⁶⁹

103. Cydnabu Cyfarwyddwr ERS Cymru y gellid ystyried sefydlu dyfarnwr annibynnol penodol yn ddwys o ran adnoddau, ond bod:

“the options are: tackling something properly, or attempting to tackle something properly, and letting this situation carry on where abuse and harassment is clearly a massive barrier to more diverse people standing for election.”⁷⁰

104. Ychwanegodd nad oedd yn credu y gallai swyddogaeth o’r fath eistedd gyda chorff presennol:

“I can’t think of any body that would necessarily have that function at the moment. I’m sure there is a potential to extend an existing body’s functions, but I think that independence needs to be key. I think it would make a strong signal in setting up something specifically, to establish that strong line around this issue. I think councillors would pay attention to that too, if there was something distinct set up for them.”⁷¹

⁶⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraffau 212

⁶⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 85

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 214

⁷¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 230

Ein barn ni

105. Er ein bod yn cydnabod rhinweddau sefydlu dyfarnwr annibynnol i ymchwilio i gyhuddiadau o fwlio ac aflonyddu rhwng cydweithwyr gwleidyddol, byddai sefydlu corff o'r fath yn gofyn am adnoddau sylweddol. Mae proses annibynnol yn allweddol ar gyfer ymchwilio i gwynion o'r fath, a chredwn y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y staff gwasanaethau democrataidd priodol yn meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol i gyfryngu. Dylid atgyfnerthu rôl swyddogion monitro awdurdodau lleol yn hyn o beth.

4. 3. Cod Ymddygiad ar y Cyd

106. Awgrym arall a gyflwynwyd oedd cod ymddygiad ar y cyd y byddai'r holl bleidiau gwleidyddol yn cytuno arno, yn enwedig o ran ymddygiad ymgeiswyr ac aelodau ar-lein. Er na chlywsom am unrhyw enghreifftiau cymaradwy neu arfer da sydd ar gael, roedd llawer o'r tystion yn cefnogi'r syniad.

107. Dywedodd Cyfarwyddwr ERS Cymru wrthym y byddai'n helpu pe bai pob plaid ar yr un dudalen a bod ganddynt safbwynt cyson, atebol a thryloyw yn erbyn cam-drin ac aflonyddu⁷². Cytunodd Cyfarwyddwr WEN Cymru:

“unless we have strong codes of conduct in each political party and between each political party about how people are going to conduct themselves, then I think people will still be put off.”⁷³

108. Clywsom y byddai cod o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol ymrwmo i set o egwyddorion cyffredin ynghylch ymddygiad brawychus. Nododd Cyfarwyddwr ERS Cymru y byddai'n rhagweld y byddai cytundeb rhwng pleidiau ar brosesau i ddelio â cham-drin ac aflonyddu yn rhan o'r cod. Awgrymodd y gallai hefyd gynnwys gweithdrefnau ar gyfer adrodd a sefydlu gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer delio â chwynion.⁷⁴

109. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru y byddai angen i'r blaid edrych ar fanylion cod ymarfer o'r fath cyn cofrestru.⁷⁵ Cytunodd y Cyfarwyddwr

⁷² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 210

⁷³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 85

⁷⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 217

⁷⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 235

Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol bod angen cael cod ymddygiad llawer gwell, llawer cryfach o ran yr hyn sy'n dderbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol⁷⁶ tra bod Prif Weithredwr Plaid Cymru yn credu bod delio â hyn o fewn gallu llywodraeth leol a'r pleidiau:

“Wel, mae hynny'n rhywbeth sydd o fewn gallu llywodraeth leol i ddelio ag e. Mae o fewn gallu'r pleidiau i ddelio ag e. A dyna ddylai fod ffocws y pleidiau a llywodraeth leol. Dylai fod yn gwbl, gwbl annerbyniol.”⁷⁷

110. Er gwaethaf rhywfaint o gefnogaeth i egwyddor cod ymddygiad ar y cyd rhwng pleidiau gwleidyddol, nid yw'n glir sut y byddai cod o'r fath yn briodol ar gyfer ymgeiswyr a chynghorwyr annibynnol.

Ein barn ni

111. Mae gan bob plaid wleidyddol gyfrifoldeb i sicrhau bod eu cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch at eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol eraill. Er ein bod yn deall y rhesymeg dros god ymddygiad ar y cyd rhwng pleidiau gwleidyddol, ni chawsom dystiolaeth ddigonol o'r hyn y dylai ei gwmpasu.

112. Mae gan awdurdodau lleol godau ymddygiad ar waith eisoes, a disgwylir i aelodau etholedig ddilyn y codau hyn. Credwn y dylai swyddogion monitro awdurdodau lleol sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r cod ar ôl iddynt gael eu hethol ac i orfodi'r ddarpariaeth. Dylid cyflwyno codau ymddygiad awdurdodau lleol yn gyson ar draws Cymru a dylai canllawiau fod ar gael i swyddogion monitro er mwyn sicrhau hyn.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cysondeb wrth weithredu codau ymddygiad awdurdodau lleol drwy gyhoeddi canllawiau ar sut i'w gorfodi.

⁷⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 181

⁷⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 243

5. Telerau a chydabyddiaeth

Fe wnaethom drafod gyda'r tystion delerau a chydabyddiaeth rôl y cynghorydd, ac a oedd y rhain yn rhwystr i ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr.

5. 1. Cyflog

113. Clywsom fod tâl yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef gan fod y cyflog presennol yn atal rhai pobl rhag ystyried sefyll ar gyfer etholiad. Pennir y cyflog gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ddiweddar, telir cynghorwyr yng Nghymru am 3 diwrnod yr wythnos, sy'n cyfateb i gyflog o tua £13,600. Fodd bynnag, mae CLILC yn nodi bod y llwyth gwaith yn llawer uwch mewn gwirionedd, gyda Phennaeth Gwasanaethau Democraidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn nodi:

“Most councillors are now saying that they do work full time.”⁷⁸

114. Nododd y cynrychiolydd fod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

“admits that it undervalues councillors as it's been unable to maintain the link to its own benchmark due to political and public pressure. If it had been able to maintain that link, it estimates that the basic salary for a councillor now would be around the £16,000 mark, but it isn't; it is only £13,600.”⁷⁹

115. Mae'r Panel Annibynnol yn ei adroddiad blynyddol 2019-20 yn datgan:

“Wrth ymweld â'r prif gynghorau'r llynedd, dywedodd sawl un o'r aelodau eu bod o'r farn bod y cyflog sylfaenol yn rhy isel, o gymharu â swydd gyflogedig draddodiadol i ddenu pobl iau ac annog mwy o amrywiaeth. Fe dynnon nhw sylw at y gwahaniaethau sylweddol rhwng cydnabyddiaeth ariannol a'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig mewn lefelau eraill o lywodraeth yng Nghymru. Roeddent yn cynnig

⁷⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 134

⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 132

felly y dylai lefel y cyflog sylfaenol gael ei chynyddu'n sylweddol i gydnabod pwysigrwydd rôl aelod etholedig o brif gyngor.”⁸⁰

116. Mae'r adroddiad blynyddol hwnnw'n cynnig “cynnydd cymedrol” o 1.97% i gyflogau aelodau i £13,868.⁸¹

117. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, nad yw'r cyflog sylfaenol yn swm dibwys a'i fod yn ad-dalu aelodau yn gywir am ymrwymiad amser a chyfrifoldeb y rôl, ond ei fod yn annhebygol o gymell unrhyw un i sefyll ar gyfer swydd gyhoeddus.⁸²

118. Roedd consensws nad yw cyflogau cynghorwyr yn ddigonol ar hyn o bryd i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dywedodd Swyddog Menywod UCM Cymru wrthym:

“With the current pay package, it would be quite hard to see how, for example, a young mother would want to stand or do the job as a councillor...that salary probably wouldn't be enough.”⁸³

119. Siaradodd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru am yr angen i gydbwyso cyflog sy'n dderbyniol i etholwyr ar adeg o galedi, ac sy'n ddigon i ddenu pobl i'r rôl. Ychwanegodd:

“what we don't want to do is to see this as a nice little earner that will take someone up to retirement age. We need to have a salary level that will attract people into the role and not be a barrier to them being able to stand for public office.”⁸⁴

120. Nododd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i roi cyllid ychwanegol i gynghorau i wneud iawn am y diffyg mewn cyflogau. Fodd bynnag, cydnabu'r broblem, a bod y pecyn cydnabyddiaeth yn llywio pob math o faterion eraill. Nododd ei bod yn bwysig osgoi sefyllfa lle mai dim ond pobl sy'n annibynnol

⁸⁰ Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, paragraff 5

⁸¹ Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, paragraff 6

⁸² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 133

⁸³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 344

⁸⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 217

gyfoethog neu sydd eisoes wedi ymddeol yw'r unig bobl a all ddod ymlaen i fod yn gynghorwyr.⁸⁵

Ein barn ni

121. Rydym yn cydnabod bod y cyflog a delir i gynghorwyr yn gymharol isel ac yn annhebygol o fod yn gymhelliad i bobl sefyll mewn swydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cyflogau'n cael eu pennu ar lefel sy'n fforddiadwy i awdurdodau lleol ac yn dderbyniol i'r cyhoedd, yn enwedig ar adeg lle mae gwasanaethau'n cael eu torri. Rydym yn ymwybodol bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn cydnabod nad yw cyflogau cynghorwyr yn cynnal cyswllt â'i feincnod ei hun a bod cynghorwyr yn aml yn gweithio mwy na thri diwrnod yr wythnos y telir amdanynt. Nodwn fod y Panel Annibynnol wedi cynnig cynnydd bach i gyflogau cynghorwyr ac rydym yn fodlon y bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa i sicrhau bod cynghorwyr yn derbyn cydnabyddiaeth deg.

5. 2. Lwfans Gofal

122. Mae gan gynghorwyr sy'n cyflawni dyletswyddau cyhoeddus hawl i hawlio lwfansau, megis ar gyfer teithio a chynhaliadau ac mae gan aelodau cymwys hawl hefyd i hawlio lwfans gofal ar gyfer dibynyddion. Clywsom fod yr agwedd negyddol hon tuag at dreuliau aelodau etholedig wedi arwain at bobl yn gwrthod hawlio'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt am eu bod yn ofni beirniadaeth gyhoeddus.

123. Dywedodd Cyfarwyddwr WEN Cymru wrthym y dylai pobl allu hawlio eu hawl llawn ac na ddylai fod unrhyw stigma ynghylch hynny, nododd ymatebwyr i'w ymgynghoriad, gan gynnwys cyn-gynghorwyr neu ymgeiswyr:

“It was frowned upon for councillors to claim their full entitlement of payments and remuneration.”⁸⁶

124. Er bod gan aelodau cymwys hawl i lwfans gofal o £403 y mis, clywsom fod y nifer sy'n manteisio ar y lwfans hwn yn isel iawn. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi adrodd yn gyson bod aelodau'n amharod i gyflwyno cais am y lwfans, gan nodi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019-20:

⁸⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 251

⁸⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 109

“Mae’n amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy’n defnyddio’r ddarpariaeth yn y Fframwaith i ad-dalu costau gofal. Ymddengys fod rhai aelodau’n dal i fod yn gyndyn o hawlio’r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i gefnogi eu gwaith, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu.”⁸⁷

125. Mae’r Panel Annibynnol yn rhoi dau opsiwn i gynghorau o ran cyhoeddi ad-daliad costau gofal, gyda phob awdurdod yn gallu penderfynu pa un y maent yn credu sy’n briodol:

- Manylion y symiau a ad-delir i aelodau a enwir; neu
- Cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond nas priodolwyd i unrhyw aelod a enwyd.

126. Awgrymodd Prif Weithredwr Plaid Cymru y dylid adrodd am ad-dalu’r lwfans gofal fel ffigur cyffredinol ar draws awdurdod lleol yn hytrach na’i briodoli i aelodau unigol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy’n manteisio arno:

“Rydw i’n gwybod bod darpariaeth gofal plant yn broblem: er bod yna lwfans ar gael, mae’r lwfans yna’n mynd yn erbyn enw’r sawl sy’n hawlio’r lwfans. Fe ddylai hwnnw gael ei adrodd ar lefel y cynghorau cyfan a dim ar lefel yr unigolyn, achos mae hynny’n rhwystr.”⁸⁸

127. Cytunodd y Gweinidog fod problem wirioneddol gyda phobl nad ydynt yn hawlio’r treuliau y mae ganddynt hawl iddynt, yn enwedig ar gyfer lwfansau gofalwyr⁸⁹ a dywedodd ei bod yn agored i awgrymiadau ynghylch sut y gallem ymdrin â mater lwfansau. Ychwanegodd, fodd bynnag, y byddai’n bwysig ceisio barn y Comisiynydd Gwybodaeth o ran ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth pe bai hawliadau’n cael eu hadrodd ar lefel gyfunol yn hytrach nag ar lefel unigol yn:

“I want to have a conversation with the Information Commissioner’s Office about what attitude they will take to freedom of information requests, if the council aggregates the response, because that’s great if the council does that so that you don’t get individuals, but if you can FOI it back to the individual, then, clearly, that completely undermines

⁸⁷ Panel Adolygu Annibynnol Cymru, Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, paragraff 8

⁸⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 265

⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 206

the whole thing. So, we need to discuss with the Information Commissioner's Office the public purpose of what we're trying to do and get them to come on board with reporting it in that way and not going underneath it for individual requests.”⁹⁰

Ein barn ni

128. Rydym yn pryderu am y dystiolaeth nad yw cynghorwyr yn hawlio lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt am eu bod yn ofni cael eu beirniadu. Rydym yn arbennig o bryderus am yr amharodrzydd ymddangosiadol i hawlio'r lwfans gofal, sy'n arf pwysig i alluogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu i ymgymryd â rôl y cynghorydd. Felly mae'n hanfodol bod y rhai sydd â hawl i'r cymorth hwn yn ei hawlio.

129. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod faint o'r cynghorwyr presennol yng Nghymru sydd â hawl i hawlio'r lwfans gofal. Credwn y dylai CLILC weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu'r wybodaeth hon er mwyn casglu dealltwriaeth gywir o'r graddau y mae aelodau'n hawlio'r lwfans hwn.

130. Gallai'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn adrodd ar y lwfansau sy'n cael eu hawlio gan aelodau ddylanwadu ar y nifer sy'n eu hawlio. Rydym yn ymwybodol ei bod yn bosibl i awdurdodau lleol adrodd ar swm cyfunol y lwfans sy'n cael ei hawlio yn hytrach nag adrodd gan aelod unigol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau tryloywder ar draws pob lefel o lywodraeth, fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i ni geisio dileu rhwystrau a hwyluso aelodaeth ehangach o fewn llywodraeth leol.

131. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â cheisio cyngor gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn amodol ar hynny, hoffem weld awdurdodau lleol yn adrodd ar lwfansau ar y cyd yn hytrach na fesul aelod unigol.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o adrodd ar y lwfans gofal sy'n cael ei hawlio gan gynghorwyr, drwy adrodd ar hyn fesul lwfans yn hytrach na nodi pob lwfans a hawliwyd gan aelodau unigol.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am nifer y cynghorwyr presennol sy'n gymwys i hawlio'r lwfans gofal a faint sy'n gwneud hynny.

⁹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 253

5. 3. Cynghorwyr amser llawn ar gyflog amser llawn

132. Un awgrym a glywsom oedd y potensial i wneud rôl cynghorydd (aelodau anweithredol) yn swydd amser llawn. Byddai'r cynnig yn gofyn am ostyngiad sylweddol yn nifer y cynghorwyr er mwyn galluogi cynnydd yng nghyflog yr aelodau. Clywsom safbwyntiau cyferbyniol ar hyn.

133. Dywedodd rhai tystion y dylid ystyried yr opsiwn hwn. Dywedodd Cyfarwyddwr ERS Cymru:

“The reason we recommended fewer councillors on a stronger remuneration package was to address the diversity issue. So, there should be measures built in. I think that would have to be done with a package of quotas. The two, for me, are very strongly linked together. This is about having a status of local authority member or a role of local authority member that could properly facilitate people from more diverse backgrounds being able to come forward and actually do the job.”⁹¹

134. Nododd hefyd fod y galwadau ar gynghorwyr yn cynyddu, o ran eu gofynion gwleidyddol a phersonol:

“People have told us that it’s very difficult for them to work part-time or full-time as a councillor while balancing childcare issues, while balancing other duties for work.”⁹²

135. Cadarnhaodd CLILC y farn hon, gyda Phennaeth Gwasanaethau Democraidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dweud wrthym:

“the role has expanded in recent years in terms of demand...so the role of a councillor is growing, and it is expanding.”⁹³

136. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth gan y maes gwleidyddol, gyda Phrif Weithredwr Plaid Cymru yn nodi:

⁹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 248

⁹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 248

⁹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 134

“Os ydym eisiau newid radical, mae angen i ni ystyried mesurau radical.”⁹⁴

137. Fodd bynnag, clywsom hefyd fod anfanteision posibl. Dywedodd Prif Weithredwr Chwarae Teg wrthym, yn ei barn bersonol hi, na ddylai rôl cynghorydd fod yn swydd amser llawn oherwydd:

“That puts off as many people as it would attract. The breadth that you get of people who are retired, employed or work part-time is the kind of breadth that you need in local government.”⁹⁵

138. Clywsom hefyd y gallai llai o gynghorwyr olygu llai o gyfle a mwy o gystadleuaeth i ddethol, a allai leihau amrywiaeth yr aelodau, gan gynnwys ei gwneud yn anos i'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is ddod yn gynghorwyr. Rhannodd Swyddog Menywod UCM Cymru ei phryderon gan nodi:

“With full-time, I think, yes, the pay might be higher, but then, I think, with the fewer roles, that would be another barrier to diversity.”⁹⁶

Ein barn ni

139. Nid ydym wedi cael ein darbwylo y byddai cynghorwyr amser llawn ar gyflog amser llawn yn arwain at gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad. Yn wir, rydym yn pryderu y gallai gostyngiad yn nifer y cynghorwyr gael yr effaith groes, gyda llai o gyfleoedd i bobl sefyll. Mae grwpiau lleiafrifol a menywod eisoes wedi'u tangynrychioli mewn llywodraeth leol, ac rydym yn pryderu y gallai lleihau'r cyfleoedd gyfyngu ymhellach ar amrywiaeth.

5. 4. Grantiau ymaddasu

140. Er y crybwyllwyd grantiau ymaddasu ar gyfer aelodau nad ydynt yn cadw eu seddau yn unig, pwysleisiodd Pennaeth Polisi CLILC y risg y mae cynghorwyr yn ei chymryd er mwyn ymgymryd â'r rôl, gan nodi:

“councillors are not entitled to any resettlement grant whatsoever. I think that is a huge risk for, particularly, younger members with caring

⁹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 215

⁹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 110

⁹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 344

responsibilities, families, people who are giving up employment, careers to be a councillor.”⁹⁷

141. Barn CLILC yw:

“the powers need to be there for the independent remuneration panel to allow some sort of resettlement grant, just as AMs, MPs have.”⁹⁸

Ein barn ni

142. Mae'r diffyg grant ymaddasu ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael eu hail-ddewis yn destun pryder a gallai fod yn rhwystr i rai sy'n dymuno sefyll etholiad. Credwn y dylid ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng cynghorwyr a chynrychiolwyr etholedig eraill nad ydynt yn cadw eu sedd.

5. 5. Cyfyngiadau pedair blynedd a chyfnod mewn swydd

143. Tynnwyd sylw at y mater o gyfnod mewn swydd fel rhwystr i gynyddu amrywiaeth. Ers tro mae Cymdeithas Fawcett wedi argymhell uchafswm o bedwar tymor ar gyfer cynghorwyr lleol. Mae hyn wedi'i gefnogi gan yr ERS ers hyn. Yn adroddiad Cymdeithas Fawcett, A yw Llywodraeth Leol yn Gweithio i Fenywod, mae data yn dangos bod dynion yn aros yn eu swyddi am gyfnod hwy na merched ar y cyfan.

“For those who have been a councillor for less than a year, the ratio is about the same, but those who have been in for one to four years the ratio has already dropped to seven women for every ten men. [...] By the time we get to those who have been in office for more than 20 years, there are only four women for every ten men.”⁹⁹

144. Cyfeiriodd ERS Cymru at gyfnod mewn swydd fel blocio seddau, gan nodi:

“While parties may put an emphasis on selecting more diverse candidates to stand in vacant seats, it is those that have been held by the same person for years where a lack of diversity will persist.”¹⁰⁰

⁹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 135

⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 136

⁹⁹ Fawcett Society. Does Local Government work for Women? – Final report of the Local Government Commission, Gorffennaf 2017

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DLG 22, ERS, Wales

145. Dywedodd y Cyngorydd Debbie Wilcox wrthym fod 693 o blith yr 895 a safodd yn yr etholiad llywodraeth leol yn 2017 wedi cael eu hailethol yn llwyddiannus. Esboniodd y Cyngorydd Wilcox:

“Incumbents are more likely to be re-elected than other candidates. It could be a mixture of profile, reputation, track record. And because most councillors are older white men, successful incumbents are therefore older white men.”¹⁰¹

146. Fodd bynnag, nododd y Cyngorydd Wilcox hefyd, ar ôl etholiadau lleol 2017, fod 45 y cant o gynghorwyr wedi'u hethol o'r newydd. Dangosodd data'r cynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg fod tua dwy ran o dair wedi gwasanaethu am ddau dymor neu lai.

147. Cafodd yr awgrym o gyflwyno cap ymatebion cymysg gan dystion. Yn gyffredinol roedd WEN Cymru a Chwarae Teg yn cefnogi uchafswm o bedwar tymor. Credai Prif Weithredwr Chwarae Teg y byddai terfyn pedwar tymor yn arwain at ddarlun mwy deinamig mewn llywodraeth leol¹⁰², tra nododd Cyfarwyddwr WEN Cymru:

“in my own experience, there are plenty of white, male, slightly older councillors who will not move and give up their seats and they're in the winnable seats.”¹⁰³

148. Roedd cynrychiolwyr y Ceidwadwyr a'r Blaid Lafur yn credu bod terfynau tymor yn artiffisial, gyda'r cynrychiolydd Llafur yn nodi:

“you will lose a lot of expertise that has been built up over a period of time.”¹⁰⁴

Ein barn ni

149. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gyflwynwyd bod cyfnod mewn swydd yn creu budd anghymesur i ddynion a bod dynion sy'n dal seddau diogel yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr ac aelodau. Er gwaethaf

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 151

¹⁰² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 125

¹⁰³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 124

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 226

hyn, ni chawsom ein darbwylllo gan yr awgrym o gyflwyno terfyn ar nifer y tymhorau y gellir ethol person.

150. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall gymryd cryn dipyn o amser i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd fel cynghorydd, a chredwn y gallai gorfodi rheol i beidio â chaniatáu i aelodau profiadol sefyll unwaith eto gael effaith niweidiol ar effeithiolrwydd democratiaeth leol. Yn y pen draw, credwn y dylid gadael y dewis i'r etholwyr lleol, ac os ydynt am beidio ag ailethol aelod sefydlog, gallant wneud hynny drwy bleidleisio dros ymgeisydd arall.

6. Rhaglenni a Chynlluniau

Clywsom dystiolaeth am yr amrywiol raglenni a chynlluniau a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth unigolion sy'n sefyll ar gyfer etholiad llywodraeth leol.

6.1. Cynlluniau mentora ac arweinyddiaeth

Rhaglen a mentora Amrywiaeth mewn Democratiaeth

151. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a fu'n weithredol o 2014 i 2017. Y nod oedd cynyddu amrywiaeth yr unigolion sy'n sefyll i'w hethol i lywodraeth leol drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- darparu cymorth mentora i ddarpar ymgeiswyr;
- ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i godi proffil gwaith llywodraeth leol a'i haelodau; a
- cynllun cyfweld ymadael gyda chynghorwyr yn rhoi'r gorau iddi mewn etholiadau i bennu'r rhesymau dros eu penderfyniad.

152. Ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen fel mentor, dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox wrthym:

“our view is that too much emphasis has been placed on mentoring. Now, mentoring is a valuable opportunity, but it's often extremely resource-intensive and offers a low return, because it's a significant personal commitment, as I found, as a mentor.”¹⁰⁵

153. Cwestiynodd rhai tystion werth y rhaglen, gyda dim ond nifer fach o gyfranogwyr yn cael eu mentora i sefyll mewn etholiad. Dywedodd Pennaeth Polisi CLILC wrthym:

¹⁰⁵ Equality, Local Government and Communities Committee, Record of Proceedings, 21 November 2018, paragraph 139

“The conversion rate from mentees into actual candidates, into actual councillors, certainly from the diversity in democracy campaign, was a little disappointing.”¹⁰⁶

154. Eglurodd y Cynghorydd Debbie Wilcox o’r 51 o fentoreion a gymerodd ran yn y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, aeth 16 ymlaen i fod yn ymgeiswyr a chafodd pedwar eu hethol yn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf.¹⁰⁷

155. Cwestiynodd Cyfarwyddwr ERS Cymru y swm a wariwyd ar y Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, ac:

“there could be better measures put in place to really encourage women and people from different ethnicities to really come forward and stand.”¹⁰⁸

156. Nododd Pennaeth Polisi CLILC fod y sefydliad eisiau dysgu gwersi o’r gwerthusiad sy’n cael ei gynnal ar y rhaglen ar hyn o bryd ac y byddai:

“keen to lead and certainly work with political parties, the Welsh Government, One Voice Wales and other partners. Local democracy campaigns are key vehicles. It’s usually only a week of events. []So, as part of a WLGA campaign, we’d certainly be looking at campaigns throughout the year to try and just refocus people, because 2022, the local elections, are a long way off, so we just need to start warming people up gradually before people really consider putting their nomination papers in.”¹⁰⁹

157. Er ei fod yn cefnogi cynlluniau sy’n cynnwys mentora, nododd Cyfarwyddwr ERS Cymru:

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 56

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 140

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 279

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 142

there's only ever going to be limited impact to those schemes, and unless you take stronger measures across the board, they're only ever going to be limited".¹¹⁰

158. Dywedodd Prif Weithredwr Plaid Cymru ei bod yn bwysig deall pam nad oedd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn y rhaglen yn sefyll etholiad:

"Rydw i'n gwybod bod aelodau Plaid Cymru wedi bod ar y cynllun amrywiaeth mewn democratiaeth a'u bod nhw wedi'i werthfawrogi'n fawr ac wedi ffeindio'r cymorth yn werthfawr iawn. Ond rydw i'n meddwl, yn y bôn, bod yn rhaid cael yr atebion gan y bobl na wnaeth sefyll yn yr etholiadau yn 2017, bod y rhaglen yna'n eu holi nhw am eu rhesymau dros beidio â sefyll."¹¹¹

159. Nid oedd Prif Weithredwr Cyngor Hil Cymru yn credu bod y Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi bod yn effeithiol wrth gynyddu nifer yr ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig:

"it didn't really make any difference. We haven't seen evidence that many BME people came through that process and were successfully elected or stood for office or even tried."¹¹²

160. Wrth symud ymlaen, awgrymodd Dirprwy Brif Weithredwr Un Llais Cymru y gellid ystyried Cyngorau Cymuned a Thref fel meysydd hyfforddi lle gallai darpar gyngorwyr awdurdod lleol gael profiad gwerthfawr:

"we think that community and town councils could be the place where the target should be, because that is the training ground for councillors who may want to become county borough councillors and maybe Assembly Members."¹¹³

161. Awgrymodd Pennaeth Polisi CLILC hefyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o gyfleoedd cysgodi tymor byrrach, yr ystyrir eu bod yn llai dwys o ran adnoddau:

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 269

¹¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 197

¹¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 69

¹¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 59

“encouraging shadowing, just one-to-one discussions with certain councillors or even officers about what the role entails, some of the issues, some of the benefits of it—and then, if they really are interested, align them with a mentor.”¹¹⁴

Rhaglenni arweinyddiaeth

162. Clywsom dystiolaeth hefyd am gynlluniau sy’n cael eu rhedeg gan nifer o sefydliadau eraill i annog mwy o amrywiaeth o bobl i sefyll mewn etholiadau lleol, gan gynnwys cynlluniau sy’n cael eu rhedeg gan Chwarae Teg, WEN Cymru a Rhwydwaith Cefnogi Pobl Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ifanc (EYST).

163. Mae Chwarae Teg yn rhedeg LeadHERship, ymgyrch genedlaethol sy’n rhoi cyfle i fenywod ifanc ddysgu am wleidyddiaeth Cymru ar lefel llywodraeth leol, ac ennill profiad uniongyrchol o fodlau rôl ysbrydoledig o fewn bywyd cyhoeddus. Clywsom gan ei Brif Weithredwr, er gwaethaf yr awydd i gymryd rhan yn y cynllun, bod angen cynllun tymor hwy:

“we’re only able to make a small impact with a small number of people. And that’s important; it’s not to do down the value of that. But we don’t have any comprehensive scheme or longevity that would lead to the kind of systematic or systemic change that we need.”¹¹⁵

164. Dywedodd Cyfarwyddwr WEN Cymru wrthym am eu cynllun mentora hwy:

“It’s got mentoring, which is a one-to-one relationship between the mentor and mentee. It’s got training, so we put on days like media training, dealing with the media, social media resilience, how to respond to bullying and harassment, public speaking [] And the third part of it, which is incredibly important [] is peer-to-peer support. So, that is the women supporting each other, and myself and Chrissie, the mentoring scheme project manager, supporting the women.”¹¹⁶

165. Clywsom fod 26 o fenywod wedi cymryd rhan yng nghynllun WEN Cymru yn ystod ei flwyddyn gyntaf a bod y menywod wedi symud ymlaen mewn gwahanol ffyrdd:

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 56

¹¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 68

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 66

“Some of them have become trustees, some of them have put themselves forward to be governors of local schools, a couple of them are going to stand and have put themselves forward for selection. But I think what we have to be careful of with these schemes is, often, people aren’t immediately going to stand. It’s about building their confidence, and certainly some of the feedback we’ve had is that women who’ve been mentored have got increased confidence. []It’s a more long-term thing. We’ve just got to keep on with it, and keep going with our cohorts every year.”¹¹⁷

166. Dywedodd Cadeirydd Plaid Leol Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd a’r Fro wrthym am ei phrofiad o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar ôl cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu, a phwysleisiodd bwysigrwydd cynlluniau o’r fath yn estyn allan at bobl o bob cefndir:

“I actually got involved in politics through a programme that Women Making a Difference ran a few years ago, Engendering Change—some people may be aware of that programme. That programme used to bring out women from all different backgrounds, and, to some extent, the current programmes, I feel, lack that. I had no intention of going into politics at that point and here I am, sitting in front of you, as a councillor. So, they can be very effective, but it’s important that they reach out to everyone and to people of all diverse backgrounds and all political followings too.”¹¹⁸

167. Pwysleisiodd Swyddog Menywod UCM Cymru hefyd fanteision mentora a chysgodi:

“Mentoring and shadowing are both really good things. I’ve really benefited from having mentors. [] I think it can be really useful for giving people an opportunity to see what they can achieve. I always say that, if you can’t see it, you can’t be it, and I think it just takes that one person to point out the skills that you have and what you have to offer. So, I think if someone was mentored by a councillor, a young person, if you partnered them up, they would really benefit from that, and that

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 67

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 200

relationship would help them see that they could become that one day.”¹¹⁹

168. Galwodd Prif Weithredwr Cyngor Hil Cymru am gyllid wedi'i dargedu'n benodol i gyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth wleidyddol i fenywod o leiafrifoedd ethnig:

“What is needed is specific funding which Race Council Cymru's hoping to work with Operation Black Vote to deliver in Wales. Specific, empowering leadership, coaching and mentoring, and coaching for performance is what we're looking at, where individuals are empowered within themselves to find strategies to overcome the negativity.”¹²⁰

Ein barn ni

169. Rydym yn cymeradwyo'r gwaith sydd wedi bod ac sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, gan yr holl randdeiliaid i gynnig cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddatblygu eu sgiliau a'u hyder gyda'r nod o annog eu cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi pobl i ddeall sut y gallant wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau lleol, ond roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a glywsom yn cwestiynu eu heffeithiolrwydd wrth hyrwyddo amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr llywodraeth leol.

170. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar hyn o bryd, ac yn credu y bydd y gwersi a ddysgwyd o gyflawni'r rhaglen honno yn bwysig wrth lunio ffocws cynlluniau yn y dyfodol. Rydym yn aros yn frwd am adroddiad Llywodraeth Cymru a byddwn yn dychwelyd at y mater hwn pan fydd yr adroddiad ar gael.

171. Er ein bod yn cymeradwyo'r cynlluniau unigol a gynhelir gan amrywiol randdeiliaid, credwn y dylid gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau hyn yn well ledled Cymru.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r holl raglenni mentora sy'n cael arian cyhoeddus i asesu eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys gwerth am arian.

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 314

¹²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 15

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn gwerthusiad o raglenni sy'n cael arian cyhoeddus, yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhaglen arweinyddiaeth genedlaethol, gan adeiladu ar brofiad Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Chwarae Teg ac eraill ac annog mwy o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n sefyll mewn etholiad.

6. 2. Y system addysg

172. Roedd addysg yn thema allweddol yn y dystiolaeth a gafwyd, gyda ffocws ar ysgolion, ond hefyd grwpiau ieuencid a chymunedol wrth godi dealltwriaeth a chyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth. Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox wrthym:

“Education, obviously, is key here. I would strongly advocate a clear pathway for learning in our schools and particularly as we’re looking to—you know, there’s a move towards voting at 16.”¹²¹

173. Clywsom fod ymgysylltu yn digwydd ar sail ad-hoc ac yn ddibynnol ar arweinwyr lleol yn dangos diddordeb yn y pwnc. Nododd Prif Weithredwr Dros Dro Ieuencid Cymru fod lefelau cyfranogiad mewn ysgolion yn dda bum mlynedd yn ôl, ond bod y gostyngiadau ariannol i wasanaethau ieuencid statudol a gwirfoddol wedi arwain at:

“an eroding of how participation is enabled amongst the young people that they work with, how they don’t have youth forums to the same extent.”¹²²

174. Rhannodd Cyfarwyddwr WEN Cymru y gred bod angen:

“get political education into schools to start the process off early.”¹²³

175. Dywedwyd wrthym fod y cynigion i ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed yn darparu cyfleoedd newydd i ymgysylltu â phobl ifanc, gyda'r Swyddog Menywod ar gyfer UCM Cymru yn nodi:

¹²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 69

¹²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 302

¹²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 56

“votes at 16 would be absolutely fantastic for this, but with votes at 16, I think there needs to be education and citizenship lessons in schools so that we’re engaging young people from a really early age.”¹²⁴

176. Rhannodd Cyfarwyddwr ERS Cymru y farn bod addysg wleidyddol i bobl ifanc yn gymharol hawdd, oherwydd eu bod mewn ystafell ddosbarth¹²⁵, fodd bynnag, rhybuddiodd yn erbyn troi hyn o gwmpas cynghorau ysgol, oherwydd:

“there’s a risk that these will only attract the brightest who are already engaged in politics.”¹²⁶

177. Clywsom mai un o’r argymhellion oedd Adroddiad Our Voices Heard ERS Cymru, a ysgrifennwyd ar y cyd â disgyblion blwyddyn 9 ledled Cymru, a alwodd am wersi addysg wleidyddol Statudol gydag isafswm disgwyliad o un awr bob pythefnos.

178. Argymhelliad arall o’r adroddiad hwnnw oedd y dylid cynnal etholiadau ffug ledled Cymru ar yr un pryd ag etholiadau’r Cynulliad. Dywedodd Cyfarwyddwr ERS Cymru wrthym am y profiad yn Norwy:

“In Norway, there is a mock election that takes place for all young people between the ages of 11 to 18, and it happens on the same day as their actual election. Then, on the tv in the evening [] you get the young people’s results. It means that politicians actually pay attention to what young people think, and it shows that what they’re doing is really meaningful.”¹²⁷

Ein barn ni

179. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn mesurau i godi ymwybyddiaeth wleidyddol ymysg pobl ifanc a gobeithio eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Rydym yn pryderu am y dystiolaeth a glywsom mewn perthynas â gostyngiadau mewn cyllid i wasanaethau ieuenctid a’r effaith niweidiol y mae hyn wedi’i chael ar gyfranogiad ieuenctid. Mae lleoliadau fel fforymau ieuenctid yn

¹²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 283

¹²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 203

¹²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 265

¹²⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 262

chwarae rôl allweddol wrth hwyluso cyfraniad pobl ifanc at fywyd cyhoeddus ac yn aml maent yn darparu llwybr i wleidyddiaeth leol,

180. Clywsom y bydd y cynnig i ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed ar gyfer etholiadau Cymru yn gwella'r cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc. Pe bai'r bleidlais yn cael ei hymestyn, dylai gael ei chyflwyno gyda rhaglen genedlaethol o addysg wleidyddol i bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses. Rydym yn deall y gallai fod pryder ymysg athrawon o ran addysgu pobl ifanc am wleidyddiaeth, ond credwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gall y cwricwlwm newydd sicrhau bod gwersi dinasyddiaeth weithredol yn cael eu cyflwyno'n gyson ledled Cymru a sicrhau bod athrawon yn gallu darparu'r wybodaeth i bobl ifanc angen.

181. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn yr argymhelliad a wnaed gan ERS Cymru mewn perthynas â chynnal ffug etholiadau i bobl ifanc ar yr un pryd ag etholiadau'r Cynulliad. Rydym yn sylweddoli y byddai angen ystyried y manylion ynghylch sut y byddai ffug etholiad yn gweithio'n ymarferol a'r grwpiau oedran sy'n cymryd rhan, ond credwn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r rhain.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell, yn y bil llywodraeth leol arfaethedig, bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno lefel ddigonol o addysg wleidyddol ar draws ysgolion Cymru. Dylai pobl ifanc 14 a 15 oed dderbyn yr addysg hon, yn enwedig pe bai cynigion i ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu gweithredu. Dylid cynnwys cynlluniau gwerau clir ar gyfer y rhaglen hon o ymwybyddiaeth wleidyddol i rymuso athrawon i gyflwyno'r gwerau.

Argymhelliad 18. Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan ERS Cymru y dylid cynnal ffug etholiad cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ar yr un pryd ag etholiadau'r Cynulliad. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir gweithredu hyn.

6. 3. Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig

182. Clywsom fod *Cronfeydd Mynediad i Swydd Etholedig* eisoes yn bodoli yn Lloegr a'r Alban i gynorthwyo pobl anabl i sefyll etholiad. Yn Lloegr, darperir grantiau o rhwng £250 a £40,000 i helpu unigolion anabl i gynnig eu hunain ar gyfer etholiad, tra bod yr Alban yn darparu cymorth ariannol i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â namau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth redeg am swydd etholedig.

183. Nid oes cronfa o'r fath yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda CLILC yn awgrymu efallai na fu'n bosibl o dan y setliad datganoli blaenorol. Dywedodd y Pennaeth Polisi wrthym:

"I don't think that could be rolled out in Wales at the time because the Assembly didn't have competence over electoral matters, I think. So, that might have been the issue at the time. But going forward, obviously you've got further powers now, so you should, if you so wish and if the Welsh Government funds it, be able to provide that support in future elections."¹²⁸

184. Cafwyd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer cronfa o'r fath yng Nghymru, dywedodd Uwch Gydymaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym:

"something that we'd certainly like to see is an access to elected office fund. At the moment, we have access to elected office funds in England and in Scotland, so I think it's really important that we don't fall behind in Wales in providing that support."¹²⁹

185. Awgrymodd Cyfarwyddwr WEN Cymru y gallai cronfa o'r fath fod yn ehangach er mwyn helpu grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol:

"Funding needs to be made available to help under-represented groups get into local government, like an access-to-elected-office fund."¹³⁰

186. Cydnabu'r Gweinidog y gall sefyll mewn etholiad fod yn ddrud ac na fydd pobl yn dod ymlaen os na allant fforddio gwneud hynny. Dywedodd fod ganddi ddiddordeb mawr mewn profi pwerau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, gan ychwanegu ei bod yn edrych o ddifrif ar p'un a ellid creu cronfa ar gyfer pobl sy'n dymuno sefyll etholiad yng Nghymru.

Ein barn ni

187. Rydym yn pryderu am y diffyg cronfa Mynediad i Swydd Etholedig yng Nghymru gan y gallai hyn ddarparu cymorth hanfodol i unigolion sy'n dymuno

¹²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 146

¹²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 108

¹³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 5

sefyll mewn swydd ond sy'n cael eu hatal gan y costau ariannol. Mae hyn yn bryder arbennig i bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd tlotach. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn awyddus i brofi y gellir sefydlu cronfa o'r fath yng Nghymru ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a yw hyn yn bosibl.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymhell, fel mater o egwyddor, bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfa Mynediad i Swydd Etholedig yng Nghymru, i gynorthwyo unigolion anabl i ymgeisio am swyddi etholedig. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o ymestyn cronfa o'r fath i gefnogi grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

7. Y system etholiadol a chwotâu

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn etholiadau seneddol ac Etholiadau'r Cynulliad gyda chwotâu, gefeillio neu restrau byr menywod yn unig yn cael eu cyflwyno, mae'r llwyddiant cyfyngedig ar lefel cynghorau lleol yn parhau i beri pryder.

7.1. Cwotâu

188. Roedd sawl tyst yn cefnogi cyflwyno rhyw fath o gwotâu, yn enwedig o ran rhyw. Roedd Is-lywydd Cyngor Ieuencid Cymru (CWVYS) o'r farn pe bai cwotâu yn bodoli:

“byddai'n sicr yn gyrru cynnydd yn ei flaen mewn meysydd lle mae angen iddo ddigwydd.”¹³¹

189. Roedd Prif Weithredwr Chwarae Teg hefyd wedi cefnogi cyflwyno cwotâu, a chyfeiriodd at y patrwm dros y pedair rownd ddiwethaf o etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ers 2004:

“if you look at female candidates, we've gone from 22 per cent to 28 per cent in that time, and every election, we've fielded more women. And where women are selected and stand, they're quite successful at getting elected. So, you know, most women who stand for election in local government get elected, but we won't get to 50/50 on the current trend until 2073.”¹³²

190. Roedd Cyfarwyddwr ERS Cymru yn cytuno:

“I really do think that without a blunt tool like quotas, you're never going to see parties truly make steps towards taking action on this issue.”¹³³

¹³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 353

¹³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 38

¹³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 232

191. Nid oedd pob tyst yn argyhoeddedig mai cwotâu yw'r ffordd ymlaen. Roedd cynrychiolwyr y Ceidwadwyr, UKIP a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu mai'r gronfa o ymgeiswyr yw'r broblem, ac y dylai annog ystod ehangach o unigolion i sefyll fod yn darged.

192. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol wrthym:

“The party chairman nationally has set a target of trying to get a 50/50 balance on the list. And I think what is most important is to increase the pool of women candidates—I think that that is where the barrier is.”¹³⁴

193. Dywedodd Swyddog Rhanbarthol UKIP Cymru:

“We think it's not necessarily something that can be manufactured as such, but the more information that's out there for what it means to be in local government and in other institutions, the better, and if that's more women, and more people from different backgrounds, then all the better.”¹³⁵

194. Clywsom gan y Gweinidog mai ei barn bersonol oedd:

“given the rate of progress, if we don't quota it, we are going to be a thousand years before we get any kind of better diversity.”¹³⁶

195. Fodd bynnag, rhybuddiodd y Gweinidog hefyd am ganlyniadau anfwriadol posibl gyda chwotâu, ac felly dylid ystyried yn ofalus y materion ymarferol a allai godi.

Ein barn ni

196. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn glir. Er eu bod yn cynrychioli tua hanner y boblogaeth, mae canran y menywod sy'n sefyll ac sy'n cael eu hethol yn aelodau awdurdod lleol ymhell o'r lefel y dylai fod. Er gwaethaf ymdrechion i annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, nid yw'r rhain wedi

¹³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 137

¹³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 143

¹³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2019, paragraff 194

cael yr effaith a ddymunir. Mae'n amlwg na fydd newid o'r fath yn digwydd yn naturiol, felly mae angen gweithredu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn.

197. Ni chawsom dystiolaeth benodol mewn perthynas â chwotâu ar gyfer grwpiau eraill a dangynrychiolir, ond dylid ystyried hyn yn fanylach ar y cyd â chwotâu ar gyfer rhywedd.

7. 2. Rhestrau byr menywod yn unig

198. Diwygiodd Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiad) 2002 y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 i ganiatáu i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio rhestrau byr menywod yn unig i ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau seneddol; etholiadau i Senedd Ewrop; etholiadau i Senedd yr Alban; etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a'r rhan fwyaf o etholiadau llywodraeth leol.

199. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i restrau byr menywod yn unig ymhlith tystion, gydag Arweinydd CLILC, Debbie Wilcox yn nodi ei bod yn:

“great advocate for all-women shortlists and quotas and so on and so forth, because otherwise it wouldn't happen.”¹³⁷

200. Nododd Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llafur Cymru fod:

“a fairly good record inside Welsh Labour of having all-women shortlists to give that boost to get us to where we want to be.”¹³⁸

201. Clywsom gan Blaid Cymru bod eu gwaith eisoes wedi dechrau i gynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n fenywod yn etholiadau lleol 2022. Mae eu rheolau sefydlog wedi'u newid i sicrhau ymgeisyddiaeth gyfartal mewn etholaethau targed.¹³⁹

202. Nid oedd cynrychiolwyr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru na chynrychiolwyr y Ceidwadwyr yn cytuno â'r egwyddor rhestrau byr menywod yn unig. Dywedodd Cadeirydd Plaid Leol y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghaerdydd a'r Fro y dylid gwneud mwy o waith er mwyn:

“make women realise the importance that they would be contributing by taking on those roles, and then supporting them through. Welsh Liberal Democrats have had women leaders []and we haven't done

¹³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 163

¹³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 178

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig DLC 20, Plaid Cymru

that by any women shortlists or anything, but by recognising and supporting talent. That's something that I firmly believe in."¹⁴⁰

203. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Adolygiad Ffiniau ar gyfer y Plaid Geidwadol wrthym:

"as a party, we would be against all-women shortlists. If there's an all-women shortlist because the three best candidates for the final shortlist are all women, that's fine, and that's often happened in the party, but it must be on the basis of merit, and it demeans women, in my view, to think that they're not there on their total ability."¹⁴¹

204. Mae'r ddarpariaeth sy'n caniatáu rhestr fer menywod yn unig yn cynnwys *Cymal Machlud*, sy'n dod i ben yn 2030, ar ôl ei ymestyn o'i ddyddiad cychwynnol yn 2015. Pwysleisiodd Prif Weithredwr Chwarae Teg ei phryder pe na bai'r cymal machlud yn cael ei ymestyn ymhellach:

"if the sunset clause comes in in 2030 and all-women shortlists are stopped before then, then we're absolutely stuffed. Now, that would require legislation at a UK level, but there are, I think, things that we can do in Wales and commitments that parties can make to extend that. But it won't happen by accident; it has to be committed to."¹⁴²

Ein barn ni

205. Rydym yn sylweddoli nad yw pob plaid wleidyddol yn ffafrio rhestrau byr menywod yn unig. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y bydd y newid sydd ei angen i gynyddu nifer y menywod mewn gwleidyddiaeth yn digwydd yn naturiol. Yn gyffredinol, mae menywod yn wynebu mwy o rwystrau rhag dod yn gynrychiolwyr etholedig na dynion, felly mae angen camau gweithredu cadarnhaol.

206. Pe bai'r Cymal Machlud sy'n caniatáu rhestrau byr menywod yn unig yn dod i ben yn 2030, ni fydd yr opsiwn hwn ar gael mwyach i bleidiau gwleidyddol. Mae rhai pleidiau gwleidyddol wedi defnyddio rhestrau byr menywod yn unig ac mae'n bwysig bod yr opsiwn hwn ar gael iddynt.

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 204

¹⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 206

¹⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 39

207. Mae'n amlwg na wnaed digon o gynnydd o ran cynyddu nifer y menywod mewn gwleidyddiaeth, felly credwn y dylid ymestyn y Cymal Machlud ymhellach i 2050.

Argymhelliad 20. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid ymestyn y Cymal Machlud yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadol) 2002 i 2050 i ganiatáu parhad y rhestrau byr menywod yn unig.

7. 3. Gofal bugeiliol ar ôl etholiad

208. Roedd gan rai o'r rhai a roddodd dystiolaeth brofiad o sefyll mewn etholiad neu roeddent wedi bod yn gynghorydd o'r blaen. Un mater a godwyd oedd y diffyg gofal bugeiliol a chymorth mentora ôl-etholiadol gan bleidiau gwleidyddol i ymgeiswyr ar ôl colli eu sedd neu fethu â chael eu hethol.

209. Roedd Cyfarwyddwr WEN Cymru wedi sefyll etholiad o'r blaen, a rhannodd ei phrofiad gyda'r Pwyllgor:

“So you’ve had the party around you, supporting you, helping you, you’re out every night canvassing, you’re at every meeting, and then you lose. You get some very nice messages on WhatsApp and a couple of phone calls the next day, and then you’re on your own...there is no pastoral care.”¹⁴³

210. Nododd Prif Weithredwr Chwarae Teg ei bod yn ymddangos bod y diffyg gofal bugeiliol yn gyfystyr â “chyfle a gollwyd gan y pleidiau”.¹⁴⁴

211. Derbyniodd y pleidiau gwleidyddol, ar y cyfan, bod mwy i'w wneud o ran darparu gofal bugeiliol. Roedd cynrychiolydd y Blaid Lafur yn cefnogi'r farn hon, gan ddatgan y gallai'r blaid:

“could be doing more to assist individuals who find themselves, in effect, out of a job after an election.”¹⁴⁵

¹⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraffau 75 a 77

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 78

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 261

7. 4. Casglu Data

212. Mae Adran 106 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud darpariaeth i bleidiau gwleidyddol gasglu data ar amrywiaeth ymgeiswyr. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi cael ei gweithredu eto gan Lywodraeth y DU.

213. Mae Mesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl pob etholiad. Mae'r Mesur yn datgan y gall y cwestiynau y bydd awdurdod lleol yn eu gofyn fel rhan o'r arolwg gynnwys gwybodaeth am ryw, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg a chymwysterau, cyflogaeth a'u gwaith fel cynghorydd. Nid oes dyletswydd ar gynghorwyr neu ymgeiswyr aflwyddiannus i ddarparu unrhyw ran o'r wybodaeth y gofynnir amdani.

214. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ERS Cymru wrthym ei bod yn anodd iawn mesur amrywiaeth ymgeiswyr ar hyn o bryd, ac i fynd i'r afael â'r sefyllfa gan nad yw maint y mater yn hysbys. Mae'r ddau eisiau gweld Adran 106 Deddf 2010 yn cael ei deddfu a'i diwygio i gynnwys llywodraeth leol.

215. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei adroddiad, Amrywiaeth ymgeiswyr a swyddogion etholedig ym Mhrydain Fawr, a gyhoeddwyd Mawrth 2019, yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU weithredu adran 106 Deddf Cydraddoldeb 2010.

216. Clywsom gan Uwch Gydymaith o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gallai fod cyfle hefyd yng Nghymru i gynnwys gofynion ar bleidiau gwleidyddol i ofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflenni amrywiaeth ar y pwynt dethol:

“I think it would be a missed opportunity if we don't think about—as we make changes to our electoral systems in Wales, that we don't build data collection of diversity data into those processes.”¹⁴⁶

Ein barn ni

217. Credwn y dylid defnyddio unrhyw fesurau i gynyddu argaeledd data ar amrywiaeth ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad. Nid ydym yn deall pam nad yw'r ddarpariaeth benodol hon wedi cael ei gweithredu gan Lywodraeth y DU. Rydym yn cefnogi casglu'r data hyn yng Nghymru, ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2018, paragraff 32

ystyried opsiynau eraill ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn absenoldeb unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill.

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Argymhelliad 22. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran casglu data, ac mewn perthynas â data eraill am ymgeiswyr y gellid eu casglu o fewn y fframwaith datganoli presennol.

Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn ac maent wedi'u [cyhoeddi ar y wefan](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
DLG 01	Cyngor Cymuned Llandochau Fach
DLG 02	Cyngor Tref y Barri
DLG 03	Cyngor Sir Ceredigion
DLG 04	Cyngor Tref Castell-nedd
DLG 05	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
DLG 06	Cyngor Tref Penarth
DLG 07	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
DLG 08	Cyngor Sir Fynwy
DLG 09	Chwarae Teg
DLG 10	Cyngor Sir Powys
DLG 11	Cyngor Hil Cymru
DLG 12	Unison Cymru Wales
DLG 13	Panel Taliadau Annibynnol Cymru
DLG 14	Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru
DLG 15	Cyngor Gwynedd
DLG 16	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
DLG 17	Y Cynghorydd Jackie Charlton, Cynghorydd Sir ar gyfer Llangatwg
DLG 18	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
DLG 19	Cyngor Bwrdeistref Sirol Port Talbot Castell-nedd
DLG 20	Plaid Cymru
DLG 21	Un Llais Cymru
DLG 22	Electoral Reform Society Cymru
DLG 23	Grwp Prif Swyddogion Ieuencid
DLG 24	Youth Cymru
DLG 25	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol
DLG 26	Roger Pratt
DLG 27	Llafur Cymru

Atodiad B: Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgriifiadau o'r sesiynau tystiolaeth llafar ar gael.

Dyddiad	Enw a sefydliad
21 Tachwedd 2018	Y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Daniel Hurford, Pennaeth Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Siân Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr, Un Llais Cymru Jessica Blair, Cyfarwyddwr, Electoral Reform Society Cymru
5 Rhagfyr 2018	Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Uzo Iwobi, Prif Weithredwr, Cyngor Hil Cymru Paul Hossack, Uwch Swyddog Cyswllt, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Mike Payne, Cadeirydd, Pwyllgor Trefnu, Llafur Cymru Gareth Clubb, Prif Weithredwr, Plaid Cymru Y Cynghorydd Bablin Molik, Cadeirydd plaid leol Caerdydd a'r Fro ar gyfer Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Tom Harrison, Swyddog Rhanbarthol, UKIP Cymru Kathryn Allen, Is-lywydd, Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Steve Davis, Rheolwr Gwasanaeth, Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Julia Griffiths, Cyd-Brif Weithredwr Dros Dro, Youth Cymru Chisomo Phiri, Swyddog Menywod, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
9 Ionawr 2019	Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru Angharad Thomas-Richards, Cyngorwr y Rhaglen Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru